

ECO'R WYDDFA

Rhif 149

Gorffennaf-Awst

Pris20c

DIM CROESO I WYLFA B YN STABLA

Y mis hwn cafodd trigolion Tai Madog a Craig Dinas, Stabla, Llanrug eu hysbysu gan y Bwrdd Cynhyrchu Trydan Canolog, B.C.T.C. fod y Bwrdd wedi rhoi cais i Gyngor Arfon i godi is-orsaf newydd yn Stabla. Yn ôl y cynlluniau sydd i'w gweld yn Cwellyn bydd yr is-orsaf newydd dair gwaith maint yr un bresennol.

Mae'r rhelyw o drigolion Stabla yn gwrthwynebu'r cynlluniau hyn oherwydd y buasai'r adeilad newydd yn fawr ac yn hyll ac yn effeithio ar werth eu tai. Yn ogystal, mae rhai trigolion yn bryderus am effeithiau sustem foltedd uchel ar iechyd trigolion, yn enwedig babanod a phlant. Nid oes prawf pendant bod effeithiau bio-electrig sustemau foltedd uchel yn ddio-gel.

Wrth astudio'r cynlluniau ar gyfer yr is-orsaf daeth un ffaith hynod o bwysig i'r amlwg, sef, ar waelod y planiau yn Stabla ceir "Wylfa B" wedi ei ysgrifennu. Mae'r is-orsaf yn Stabla yn rhan o gynlluniau Wylfa B. Er, ar bapur, bod y BCTC wrthi'n gwneud cais am gael codi Atomfa Dwr Dan Bwysedd yn Wylfa B (Pressurised Water Reactor) maent yn cymryd yn ganiataol y byddant yn codi Atomfa Wylfa B ac yn cymryd yn ganiataol y codir yr is-orsaf yn Stabla. Mae trigolion Stabla yn gofyn pam bod y BCTC yn smalio ymgynghori â hwy pan maent eisoes wedi gwneud eu penderfyniadau. Felly, hefyd drigolion Gwynedd. Mae'n ymddangos fod



y BCTC yn gwneud fel y mynant yng Ngwynedd.

Yn ôl George Johnston, rheolwr cynllunio gorsafoedd y BCTC:

"The decision of the Board to proceed with an application did not rest on the result of the consultation process. Even if their consultations produced a 100% negative response, the Board would still proceed if they regarded the potential site in question as suitable." (28.4.88).

Y fath haerllugrwydd. Go brin y bydd pobl Gwynedd yn barod i gael eu trin fel hyn. Does ryfedd fod y mudiad gwrth niwcliar yn tyfu'n gyflym.

(Gw. hefyd tud 3)

CHWYTHU EI GORN AM £1800



Dyma'r swm sydd wedi ei godi'n ddiweddar i goffrau Seindorf Deiniolen, diolch yn bennaf i ymdrech arbennig iawn un o'i haelodau.

Penderfynodd Dafydd Wyn Evans (Dafydd Twins) gerdded o Ddeiniolen i Fangor gan chwythu'r corn mawr (E fflat) yr holl ffordd. Yna bu ef ac aelodau eraill y band yn chwilio am nodwyr. Casglodd Dafydd ei hun £850.

Bydd yr arian yn mynd tuag at gostau'r band pan fyddant yn cystadlu ym Mhencampwriaethau Bandiau Pres Gwledydd Prydain yn Llundain ar Hydref 7.

LLENORION IEUANC PENISARWAUN



"Yn wyneb haul a llygad goleuni", dyna'n llythrennol ble mae Huw Tegid ac Eurgain Haf, prif lenorion eisteddfod bentref Penisarwaun. Deg oed yw Huw Tegid, ac ef ddaeth i'r brig yn yr Adran Gynradd gyda cherdd i Terry Griffiths, y chwaraewr Snwcer (gellwch ei darllen ar dudalen Penisarwaun). Lluniodd Eurgain Haf, enillydd yr Adran Uwchradd, sgript ar gyfer pennod arall o "Jabas" a chafodd ganmoliaeth arbennig iawn gan y beirniad Ken Huws, Llanllyfni.

Cyflwynwyd tarian a chwpan hardd i'r ddau i'w dal am flwyddyn ynghyd â thlysau i'w cadw.

O'R WAUN I LESOTHO

Ddiwedd mis Awst bydd Nan Wyn, merch 18 oed Rob ac Alma Jones, Waunfawr, yn gadael ei theulu a'i ffrindiau yn y Waun ac yn teithio i Lesotho, gwlad dlawd yn Neheudir Affrica. Bydd yno am naw mis yn gweithio mewn cartref i blant amddifad.

Wrth edmygu ei menter a'i phenderfyniad dymunwn y gorau iddi.

Yma, gadawn i Nan ei hun ddweud dipyn o'r hanes:



Nan Wyn Jones – merch o benderfyniad cryf.

Er pan oeddwn yn blentyn breuddwydiais am gael ymweld ag un o wledydd y trydydd byd.

Yn ffodus iawn, ar Awst 28 bwriadaf wireddu fy mreuddwyd drwy fyw yn Lesotho am naw mis. Byddaf yn gweithio mewn cartref plant amddifad ym Masite. Pentref bychan sy'n cael ei redeg gan "Achub y Plant Lesotho", rhyw ugain milltir tu allan i'r brif

ddinas, (sydd fawr fwy na Chaernarfon!) Maseru.

Nawr mae'r arholiadau wedi dod i ben gobeithiaf gasglu dipyn o arian i fynd drosodd gyda mi i'r cartref – gan fod y pentref yn un tlawd, ac yn dibynnu'n fawr ar roddion.

Byw mewn bwthyn bychan ar fferm a fyddaf. Nid yw bywyd yr un mor hawdd i bobl Masite ag ydyw i ni, bobl Waunfawr. Dim picio i'r post i nôl hanner dwsin o wyau a phum pwys o datws a wneir ym Masite ond tyfu popeth sydd ei angen ar y fferm. Pwy a wyr efallai y gwnaf wraig i ryw ffermwyr cefnog ar ôl i mi ddod adref!

Gobeithiaf ddychwelyd yn ôl i Waunfawr gogyfer Eisteddfod yr Urdd Dyffryn Nantlle. Felly fe wela'i chi gyd yng Nglynllifon.

Llongyfarchiadau hefyd i Nan ar ddod yn ail yn y gystadleuaeth Siarad Cyhoeddus dan 25 yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd Cwm Gwendraeth.

ECO'R WYDDFA

RHIF 149
GORFF/AWST 1989

Argraffwyd gan Wasg Gwynedd
Cibyn, Caernarfon

Cyhoeddwyd gyda chymorth
Cymdeithas Gelfyddydau
Gogledd Cymru

SWYDDOGION A GOHEBWYR GOLYGYDD NEWYDDION CYFFREDINOL:

Twrog Jones, Pros Kairon,
Glanffynnon, Llanrug (C'fon 4051)

GOLYGYDD ERTHYGLAU:

Dafydd Whiteside Thomas, Bron-y-
Nant, Pontrhythallt, Llanrug (C'fon
3515)

GOLYGYDD NEWYDDION PENTREFI:

Nant Roberts, Arwel, Pontrhythallt
(870760)

GOLYGYDD CHWARAEON:

Dafydd Evans, Sycharth, Penisarwaun
(Llanberis 872407)

ECO'R IFANC:

Mrs Nan Humphreys, Pant Bryngwyn,
Tanycoed (C'fon 5668)

DYDDIADUR Y MIS:

Mrs Olwen Llywelyn, Pant Afon Bach,
Llanrug (Waunfawr 200)

FFOTOGRAFFWYR:

Gwyndaf Jones, 60 Glanffynnon,
Llanrug (C'fon 4669)

Gwyndaf Hughes, Glasgoed, Llanrug
(C'fon 77263)

TREFNYDD HYSBYSEBION:

John Roberts, Bedw Gwynion, Llanrug
(C'fon 5605)

TREFNYDD GWERTHIANT:

Arwyn Roberts, Hafle, Ffordd yr Orsaf,
Llanrug (C'fon 5510)

TREFNYDD ARIANNOL:

Goronwy Hughes, Eithinog, 14 Afon
Rhos, Llanrug (C'fon 4839)

TREFNYDD GWERTHIANT POST:

Mrs E Whiteside Thomas, Dolwar,
Llanrug (C'fon 4778)

GOHEBWYR PENTREFI: Dyma'r
bobl i gysylltu â nhw yn eich
ardaloedd.

BETHEL: Geraint Elis, Cilgeran,
(Portdinorwig 670726)

BRYNREFAIL: Miss Lowri Prys
Roberts, Godre'r Coed (870580)

CAETHRO: Mrs Beryl Roberts,
Gerallt, Erw Wen (C'fon 3536)

CEUNANT: Gwenno Parri, Morwel
(Waunfawr 321)

CWM-Y-GLO: Mrs Iris Rowlands,
Glanrafon (Llanberis 872275)

DEINIOLLEN: W O Williams, 6 Rhyd-
fadog, Deiniolen (Llanberis 871259)

DINORWIG: Mr D J Thomas, 8 Maes
Eilian (870773)

LLANBERIS: Iola Sellers, 13 Dôl
Elidir (871043)

LLANRUG: Mrs Dyfi Jones, Tyddyn
Rhuddallt (Caernarfon 76733)

NANT PERIS: Mrs Ann Fleming,
Dolwen, 8 Nant Ffynnon (871457)

PENISARWAUN: Mrs Ann Evans,
Sycharth (Llanberis 872407)

TAN-Y-COED: Miss Bethan Parry, Ael
y Bryn. (872 276)

WAUNFAWR: Mrs Nan Roberts,
Pantafon, Waunfawr.

Y RHIFYN NESAF

Daw'r rhifyn nesaf o'r wasg
NOS IAU, AWST 31
Deunydd i law'r
golygyddion perthnasol
NOS FAWRTH
AWST 22
os gwelwch yn dda.

LLYTHYRAU

GWIRTHWYNEBU'R DATBLYGIAD YNG NGLYN RHONWY

Annwyl Olygydd,

Mae'n amlwg wrth fynd o
ddrws i ddrws yn casglu enwau ar
ddeiseb yn ystod yr wythnosau
diwethaf bod y mwyafrif llethol o
drigolion Llanberis, Fachwen,
Dinorwig, Deiniolen, Brynrefail,
Cwm y Glo a Llanrug yn gwrth-
wynebu bwriadau Cwmni
Leading Leisure o Southampton i
ddatblygu safle Glyn Rhonwy fel
pentref gwyliau anferth ac yn
annog Cyngor rfon i'w wrthod.
Eisoed mae deiseb gyda dros fil o
enwau a channoedd o lythyrau
wedi eu hanfon at y Cyngor yn
erbyn y datblygiad.

Wrth gwrs gwyddom bod y gair
olaf gan y Cyngorwyr lleol ac o
gofio hyn hoffwn atgoffa darllen-
wyr yr Eco o ddau beth. Yn
gyntaf mae'n bwysig bod PAWB
yn awr yn anfon llythyr at eu
Cyngorwyr lleol i annog pob un
ohonynt i bleidleisio yn erbyn y
datblygiad pan drafodir ef yn
siambr y Cyngor ar nos Fercher,
Gorffennaf Sed yn Cwellyn,
Caernarfon. Yn ail mae'n bwysig
bod gymaint ohonoch ag sydd
bosibl yn gwneud ymdrech i fod
yn bresennol yn y cyfarfod
hwnnw a fydd yn cychwyn am
6.30 y noson honno.

Hyd yma mae PADARN wedi
cael cefnogaeth di-ben-draw i'r

frwydr yn erbyn bwriadau Cwmni
Leading Leisure. Nawr gofynnwn
am un ymdrech pellach cyn y
cyfarfod tyngedfennol hwnnw ar
y Sed o Orffennaf.

Diolchgar dros ben i bawb.

Yn gywir iawn,

GLYN TOMOS (Cadeirydd)
PADARN (Cymdeithas Hybu a
Gwarchod Lleoll.

Pen y Bwlch,
Dinorwig,
Caernarfon

Annwyl Olygydd,

Yr wyf yn cydymdeimlo'n llwyr â
phobl Llanberis yn eu pryder am
yr hyn all ddigwydd yno, be bai'r
adran Gynllunio yn caniatáu i
gwmni dieithr adeiladu rhyw dref
anferth mor agos iddynt: mae eu
haddewid am waith i'r bobl leol
yn chwerthinllyd - un cwestiwn
bach: Pwy fydd rheolwr y gwesty
moethus, a phwy fydd yn glan-
hau esgidiau'r ymwelwyr?

Gwerthu'n Treftadaeth

O wyr hael, eich rhoi helaeth - i'r
estron

Yn ddi-rwystr dir eiriaeth;
Pa sawl rhan am arian aeth
I faeddu'n hetifeddiaeth.

Ann Hughes
Merddyn Gwyn,
Pentraeth,
Ynys Môn

CEFNOGAETH I EISTEDDFOD Y WLADFA

Annwyl Olygydd,

Y mae cais wedi ein cyrraedd i
ofyn am gyhoeddusrwydd i gys-
tadlaethau yn yr Adran
Lenyddiaeth yn Eisteddfod Y
Wladfa a gynhelir eleni ar 21 o
Hydref.

Fel ag y gwyddoch, mae
cadw'r Gymraeg yn fyw yn yr
Ariannin yn bur anodd erbyn hyn
a'r Eisteddfod yw uchafbwynt y
gweithgareddau blynyddol yno.
Fe fuaswn yn ddiolchgar iawn pe
baech yn medru cyhoeddi'r testu-
nau amgaeledig yn eich papur
lleol, gan fawr obeithio y bydd
llu o gyfeillion yn barod i roi
cynnig arnynt.

Dylai'r gwaith, mewn amlen
wedi'i selio, gael ei anfon at:
Mrs Eiddwen Humphreys,
'Mimosa', Rhif 1 Ffordd
Cambrian, Y Bala, Gwynedd. Y
dyddiad cau yw 20 Gorffennaf,
1989.

Diolch yn fawr i chi am bob
cefnogaeth.

Yr eiddoch yn gywir,
Ivonne Owen
ar ran Cymdeithas Cymry
Ariannin

EISTEDDFOD Y WLADFA 21 Hydref, 1989

BARDDONIAETH

1. Cadair yr Eisteddfod: Chwec
o gerddi byr, cefndir gwladfaol
neu archentaidd.
2. Soned: 'Y Daith'.
3. Telyneg: Testun rhydd.
4. Penillion syml: Unrhyw destun.
5. Acrostic: "Eisteddfod".
- 10 llinell. Y llythyren DD i'w
chyfrif yn ddwy.

RHYDDIAITH

6. Ysgrif: "Llawenydd".
7. Stori fer: "Disgwyl" neu
"Cychwyn".
8. Stori ddifyr wladfaol.
9. Ysgrif: "Atgofion Athrawes"
neu "Atgofion Athro".
10. Ysgrif i ferched: "Nyrsio".
11. Ysgrif i feibion: "Cydwethredu".
12. Ysgrif agored: "Ers Talwm"
(Atgofion mebyd neu blentyn-
dod).
13. Ysgrif: "Canmlwyddiant
Capel Tabernacl".

COFIWCH - NI FYDD YR "ECO'N" YMDDANGOS
AR DDIWEDD GORFFENNAF.
DYMUNWN WYLIAU HAPUS I'R HOLL DDARLLENWYR

DIOLCH

Annwyl Olygydd,

ADRAN BENTREF LLANRUG

Carwn, drwy'ch colofnau, ddi-
olch i bawb a wnaeth ein
hymweliad ag Eisteddfod y Urd d
Cwm Gwendraeth mor llwyddi-
annus.

Er yn anffodus, ni chawsom
ymddangos ar lwyfan yr Wyl
eleni, daeth llwyddiant mewn
ffordd wahanol - rhieni a phlant
o Lanrug a Phenisarwaun yn
cydweithio'n gyfforddus i wneud
uned sydd wedi cynrychioli ardal
yma yn Eryri.

Cafodd y plant groeso cynnes
iawn gan eu gwesteion, ac roedd
eu hymddygiad hwy, yn eu tro,
i'w ganmol yn fawr.

Diolch eto am roi cymaint
ymhob ffordd i'r adran ac
edrychwn ymlaen at y flwyddyn
nesaf pan fydd yr Eisteddfod ar
drothwy'r drws.

Yn gywir,

Idwal a Bethanne Williams

Disgwylfa,
Llanrug

CANOLFAN GYNGHORI CAERNARFON

Mae ar y Ganolfan Gyngori
(Citizens Advice Bureau) angen
gwirfoddolwyr Cymraeg i'w
helpu yng Nghaernarfon am ych-
dig oriau bob wythnos.

Mae'r ganolfan yn rhoddi cyn-
gor ar amrywiaeth helaeth o brob-
lemau cymdeithasol. Rhoddir
hyfforddiant trylwyr a llawn i
weithwyr cyn iddynt ddechrau ar
eu gwaith. Bydd cwrs cyflwyno
yn gynnar ym mis Gorffennaf.

A oes gennych chi ddiddordeb
yn y gwaith diddorol yma? Am
fwy o wybodaeth cysylltwch â
Mrs Ann Griffith,

Rheolwr,

41 Stryd LLyn, Caernarfon.

Ffôn: Caernarfon 5246.

GWASANAETH FIDEO PROFFESIYNOL AR GYFER UNRHYW

ACHLYSUR

- * Dyweddïad
- * Priodas
- * Pen-blwydd
- * Bedydd
- * Drama
- * Carnifal

Am fwy o fanylion
cysylltwch â
John Blight
LLANBERIS
872 209



Pan gyhoeddodd y Bwrdd Canolog Cynhyrchu Trydan y bwriad i adeiladu gorsaf niwcliar Dŵr Dan Bwysedd (P.W.R.) yn yr Wylfa, Ynys Môn, sefydlwyd Mudiad P.A.W.B., sef Pobol Atal Wylfa B. Mae PAWB yn gwrthwynebu adeiladu gorsaf niwcliar am nifer o resymau, yn bennaf am nad yw ynni niwcliar wedi gwired-du'r addewid o ynni "rhy rhad i'w fesur" fyddai'n lân ac yn ddiogel. Yn lle hyn mae gennym broblem sy'n bygwth ein bodolaeth – nid yn unig mae ynni niwcliar yn annerbyniol o ddrud ond mae hefyd yn creu gwastraff gwenwynig na ellir cael gwared ohono a gall yr ymbedlydredd lefel isel o orsafoedd niwcliar greu niwed geneteg i'r corff.

Cofiw'n hefyd am drychineb Chernobyl a'r effaith hir-barhaol ar ein gwlad. Credwn fod bodolaeth gorsafedd niwcliar ac adeiladu rhai newydd yn beryglus i iechyd a lles pobol a'r amgylchedd.

Mae'r Bwrdd Canolog Cynhyrchu Trydan eisoes wedi cyflwyno eu cais cynllunio i adeiladu Wylfa 'B' ac yn awr mae gan y cyhoedd hyd at ddiwedd mis Gorffennaf i gofrestru fel gwrthwynebwyr, ac i fynnu ymchwiliad cyhoeddus llawn i'r cais. Gall unrhyw un gofrestru fel gwrthwynebwyr drwy anfon llythyr neu lenwi'r ffurflen isod a'i hanfon i Leon Gibson, Prif Weithredwr, Cyngor Bwrdeisdref Ynys Môn, Llangefni, Ynys Môn, Gwynedd.

Mae eich llais yn bwysig – cefnogwch yr ymgyrch hon i atal adeiladu pwerdy ynni niwcliar yng Nghymru!

Mae cardiau gwrthwynebu ar gael gan Bet Huws, 2 Bryn Geraint, Bryn Eglwys, Bethesda, Gwynedd.

Annwyl Syr

**GORSAF NIWCLIAR ARFAETHEDIG WYLFA B
CAIS CYNLLUNIO AM ADWEITHYDD DŴR DAN BWYSEDD**

1. Gwrthwynebaf y cais oherwydd:
 - (a) ei fod yn ddatblygiad annerbyniol i Ynys Môn ar lefel amgylcheddol, economegol a diwylliannol.
 - (b) ei fod yn ddi-angen ac yn ddull anniogel ac aneconomaidd o gynhyrchu trydan ar gyfer anghenion y dyfodol.
2. Mynnaf ymchwiliad cyhoeddus llawn i'r cais ond gwrthwynebaf iddo gael ei gynnal cyn 1992 (h.y. cyn i'r diwydiant trydan gael ei breifateiddio'n llwyr).

Dymunaf i chwi gofrestru fy ngwrthwynebiad a'm gwneud yn hysbys o ddatblygiad y cais hwn.

Yn gywir iawn

Llofnod: Dyddiad:

Enw llawn:

Cyfeiriad:

AM DEITHIAU CYFFORDDUS, DIOGEL A RHAD YM MHRYDAIN A THRAMOR ...



**BYSIAU ARFON
LLANRUG**

(Eric Morris)

Ffôn: Caernarfon 5175 77858

MARK HUGHES YN CHWARAE I LANBERIS?



Clwb Pêl-droed Bryncoch sy'n chwarae yn erbyn yr "Enwogion" i ddathlu canmlwyddiant y Clwb yn y gyfres deledu boblogaidd "C'mon Midffild". Ar gyfer y ffilmio roedd tîm yr "Enwogion" yn gwisgo crysau tebyg iawn i dîm Llanberis. Roedd Arwel Jones wedi gwirioni gweld Mark Hughes (y fo sy'n sgorio gôl yn y llun uchod gyda llaw!) yn gwisgo lliwiau'r 'Darans', ond roedd Tony (Penbont) Roberts yn ddigon parod i egluro nad oedd o'n ddigon da i wisgo lliwiau Llanrug. Yr aelod arall o dîm yr "Enwogion" yn y llun yw Vaughan Hughes. Mae criw Fflimiau'r Nant i'w gweld yn y cefndir. Disgwylir i'r gyfres gael ei dangos yn ystod y gaeaf nesaf.

BBC CYMRU YN CHWILIO AM GYFLWYNWYR TELEDU NEWYDD

'Dewch atom i ddweud eich stori' – dyna gri BBC Cymru wrth lawnsio ymgyrch i chwilio am dalent newydd ym 1989.

Yn ystod ioe Amaethyddol Cymru yn Llanellwedd ym mis Gorffennaf, mae'r BBC yn gobcithio darganfod cyflwynydd neu gyflwynwyr teledu newydd sbon.

"Bob diwrnod, ym mhafiliwn y BBC ar faes y sioe, byddwn yn cynnal profion o flaen y camerau i geisio dod o hyd i wyneb newydd", ebe John Jenkins, Swyddog Cysylltiadau Cyhoeddus BBC Cymru, a threfnydd yr ymgyrch.

Os ydych chi rhwng ugain a deugain oed, heb brofiad darlledu, ac yn awyddus i efelychu, ac efal-lai i ymuno â thîm profiadol darlledwyr BBC Cymru, yna hwyrach mai dyma'ch cyfle mawr chi!

Os oes gennych ddiddordeb, danfonwch air ar fyrder, gan amgae llun diweddar, at John Jenkins, Swyddog Cysylltiadau Cyhoeddus BBC Cymru, Llandaf, Caerdydd CF5 2YQ, yn sôn amdanoch eich hunan, ac yn dweud pam y carech gymryd rhan a beth yw'ch gobeithion am y dyfodol.

GWAITH CYNGHORYDD

Mae'r Cyngorydd Eurig Wyn wedi ysgrifennu at yr Adran Prifffyrdd i ddiolch iddynt am lefelu'r bont anwastad wrth ymadael â'r pentre i gyfeiriad Caernarfon. Trefnwyd cyfarfod ar y safle wedi iddo dderbyn nifer o gwynion gan ffermwyr a gyrrwyr.

Mae hefyd wedi bod yn cyfarfod â swyddogion yng nghefn-ffordd beryglus Lôn Pant y Waun a Lôn yr Ysgol.

Yng Nghaeathro, bu'n trafod gyda'r Adran Prifffyrdd am yr angen i ymestyn y palmant rhwng y festri a'r garej, a'r angen i dorri gwair a drysni naill ochr i'r ffordd.

SIMNEIAU GWael? CRACIAU? MŴG A HOGLA' TARO PERYGLUS?

Cysylltwch â Dave Wood

'INSULAFUE'

Yr Arbenigwr ar leinio simneiau

FRON HEULOG, DINORWIG

Ffôn: Llanberis 871376

DEINIOLLEN

GOHEBYDD: W. O. Williams, 6 Rhydfadog (Llanberis 871259)



Plant ysgol Sul Llandinorwig a fu'n cystadlu yng Ngwyl Gorawl Eryri (yn absennol o'r llun mae dwy chwaer, sef Hayley Williams a Lowri Williams)

GWYL GORAWL ERYRI 1989: Cynhaliwyd yr Wyl eleni yn Eglwys Crist Llandinorwig ar Sul y Drindod, Mai 21ain, gyda Gwyl y Plant am 2 o'r gloch y pŵn a'r oedolion am 6 yr hwyr.

Arweiniwyd Gwyl y Plant gan y Parch Alun Hawkins a Tegid Roberts. Cymerwyd y rhan agoriadol gan Martin Thomas, Dylan Hughes, Sian Griffith, Sian Ellen Thomas a Hayley Williams o Ysgol Sul Llandinorwig.

Cyflwynwyd tystysgrifau i dros gant o blant gan Ddeon Gwlad Arfon, Parch D Noel Jones ynghyd â medal i bob plentyn a

eisteddodd yr Arholiad Ysgrifenedig.

Enillydd y darian am y gwaith gorau yn yr Adran Ysgrifenedig (oedran B1 a 2 Ysgolion Uwchradd) oedd Sian Griffith o Llandinorwig, gyda Nia Wyn Roberts o Eglwys St Padarn yn derbyn Cwpan Coffa Alun Jones am y gwaith gorau yn oedran B1 3 a 4 Ysgolion Uwchradd.

Gwasanaethwyd yn yr hwyr gan y Parch Alun Hawkins, Tegid Roberts a'r Canon Glyndwr Williams, gyda'r Parch Carol Evans, Bodedern yn traddodi'r bregeth.



Nia Wyn Roberts gyda Chwpan Coffa Alun Jones.



Sian Griffith gyda'r darian.

SEINDORF ARIAN: Enillwyr Clwb 200 am fis Mehefin:

£20: (208) John Green, c/o Caradog; £15: (106) G Thomas, Caernarfon; £10: (206) Ann Joannidi, Clwt y Bont.

MERCHED Y WAWR: Llywyddwyd y cyfarfod i offen y tymor gan y llywydd, Mrs Buddug Jones. Enillwyd y raffl gan Mrs Gladys Jones. Y pwyllgor oedd yn rhoi y te. Dymunwyd gwyliau hapus i bawb a bydd y tymor nesaf yn dechrau ym mis Medi.

YSGOL GWAUN GYNFI:

Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd: Longyfarchiadau i Alaw Mari Hughes a ddaeth yn ail yng nghystadleuaeth Gwau a Chrosio dan 8 oed.

Mabolgampau Cylch yr Urdd; Ar Fai 17eg bu nifer o blant yr ysgol yn cystadlu ym mabolgampau'r Urdd yng Nghaernarfon. Dyma'r plant fu'n llwyddiannus: Rhedeg dan 12: Lyndsey V Parry (3ydd); Neidio uchel dan 10: Karen Jones (1af); Neidio uchel dan 12: Leah Lineham (1af); Taflu Pêl dan 12: Arwel Jones (1af); Ras Gyfnewid dan 12: 2il.

APÊL URDD DYFFRYN NANTLLE AC ARFON: Fel y gwyddoch mae criw bach yn ymdrechu'n galed i gasglu arian ar gyfer dyfodiad Eisteddfod yr Urdd i Glynllifon yn 1990. Mae llawer o weithgareddau lleol ar y gweill ar hyn o bryd, ond mae angen mwy o ddwylo i wneud y gwaith yn ysgafnach i bawb.

Dyma restr o'r gweithgareddau:

11 Medi: Prisiau ar hen bethau;

13 Hydref: Noson Goffi;

Tachwedd: Cyngerdd y Seindorf;

8 Rhagfyr: Noson Cawl a Chân.

CARNIFAL:

Mehefin 29: Ras Hwyl yn cychwyn o iard Ysgol Gwaun Gynfi - bydd gwobrau (spot prizes) i'r goreuon ym mhob dosbarth. Cwn Poeth, Hufen lâ ac Oren am bris rhesymol.

Gorffennaf 2: Cymanfa Ganu yn Ebenezer am 8 o'r gloch dan arweiniad Mr Goronwy Jones, gyda Seindorf Arian Deiniolen ac eitemau gan fuddugwyr leuenctid yr Urdd o'r Seindorf.

Gor 3: Pêl-droed 5 bob ochr;

Gor 4: Disgo yn yr Ysgol Feithrin;

Gor 5: Coroni'r Frenhines;

Gor 6: Mabolgampau;

Gor 7: Bingo i'r plant yn Ystafell y Seindorf;

Gor 8: Y Carnifal i ddechrau am 1 o'r gloch o Rhydfadog i iard yr ysgol lle bydd Jabas Jones a'i griw yn agor y Carnifal am 1.45pm

Dewch yn llu i ymuno yn hwyl Wythnos y Carnifal.

LLONGYFARCHIADAU i Iwan Williams, Hafle, Rhes Faenol am gael ei ddewis i chwarae'r corned gyda Band Pres Cenedlaethol leuenctid

Cymru am y drydedd flwyddyn. Hefyd i Julian Joaniddi ac Eilir Williams, sydd wedi eu dewis fel eilyddion.

PLAID CYMRU: Enillwyr Clwb 100 mis Mai: £10: Charles Jones, 14 Pentre Helen; £8.50: Iola Gruffydd, 2 Rhes Fictoria.

SEFYDLIAD Y MERCHED:

Cynhaliwyd cyfarfod o'r Sefydliad yn y Ganolfan ar Fehefin 5ed o dan arweiniad Mrs Eirlys Lloyd Jones, y llywydd. Darllenodd Mrs Jones y llythyr misol a chawsom noson ddifyr gyda Mrs Jones yn dweud ei hanes yn y Cyfarfod Cyffredinol a gynhaliwyd yn Llundain ym mis Mehefin. Cawsom adroddiad manwl iawn gan Mrs Jones. Diolchwyd iddi gan Miss Jean Moeller. Rhoddwyd y te gan Mrs Glenys Williams a Mrs Eirian Jones ac enillwyd y raffl gan Mrs Alwen Jones. Llongyfarchwyd Mrs Eirian Jones ar fod yn nain am yr ail dro.

Bydd y cyfarfod nesaf ar Orffennaf 3ydd.

CLWB ELIDIR: Ar y 16eg o Fai cawsom brynhawn hynod o ddifyr gyda Mrs Edna Coles yn arddangos ei gaith ac yn sôn dipyn am gerflunio, a'r aelodau i gyd yn dangos eu diddordeb yn y grefft. Cafwyd dwy raffl trwy garedigrwydd Mrs Mary Morris a Mrs Alice Griffith ac fe'u henillwyd gan Mrs Blodwen Parry a Mrs Jane Jones. Rhoddwyd y te gan Mrs Katie Griffiths, Mrs Mary Thomas, Mrs Ellen Williams a Mrs Edna Coles.

Croesawyd tair o'r aelodau yn ôl ar ôl gwaeledd a thriniaeth yn yr ysbyty, sef Mrs Dilys Thomas, Mrs Mary Hughes a Mrs O R Williams.

Ar y 18fed o Fehefin treuliwyd prynhawn difyr gyda Mrs Alice Griffith yn ein diddanu a diolchwyd

IEUAN WILLIAMS

Glanffrwd

DEINIOLLEN

Llanberis 870484

- * Bysus o 12 i 53 sedd
- * Teithiau Lleol a Thramor
- * Gwaith Contract
- * Telerau arbennig i bensiynwyr, myfyrwyr a phlant ysgol

Gwasanaeth Llogi Cerbydau

SEGONTIUM
CAR . VANHIRE

Cerbydau Pickup, Luton Cargo
a Bysus Mini

Hefyd Gwasanaeth Glanhau Ceir

MODURDY LLEIOD,
CAERNARFON Ffôn: 2013

CHIROPDIST

Gwasanaeth yn
eich Cartref

E. Ll. Parry

M.S.S.Ch., M.B.Ch.A.

57 Glanffynnon

LLANRUG

Ffôn:

Caernarfon

5754

DEINIOLEN

(PARHAD O DUDALEN 4)

iddi gan Mrs J Eirlys Williams a Mrs Alwen Jones. Rhoddwyd y te gan Mrs O R Williams, Mrs Dilys Thomas, Mrs Pat Evans a Miss Eileen Williams. Enillwyd y raffl, rhoddedig gan Miss Eileen Williams, gan Mrs Sally Lewis.

Cydymdeimlwyd â theulu y diweddar Mrs Katie Lewis a fu ar un adeg yn aelod ffyddlon o'r Clwb.

DYMUNA Brian Cashman ac Ann ddiolch i'w teulu, cymdogion a ffrindiau am yr anrhegion, arian a'r cardiau a dderbyniwyd ar eu dyweddiad. Diolch o galon i bawb oddi wrth y ddau deulu.

DIOLCH: Dymuna Alun a Glenys Roberts, 13 Maes Gwylfa ddiolch i Sheila a Joyce, perthnasau, cyfeillion a chymdogion am y rhoddion, cardiau a'r blodau a dderbyniwyd ar achlysur eu Priodas Ruddem. Diolch yn fawr.

DYMUNA Alun a Lona a'r teulu, 36 Rhydfadog ddiolch i bawb am bob arwydd o gydymdeimlad a ddangoswyd tuag atynt yn ddiweddar yn eu profedigaeth o golli mam a nain annwyl iawn, sef Mrs Katie Lewis, gynt o 7 Maes Gwylfa. Diolch o galon i bawb.

DYMUNA Mrs Nellie Hughes, Cliff, David a'r teulu oll ddiolch o galon i bawb am bob arwydd o gydymdeimlad a charedigrwydd a dderbyniwyd ganddynt yn ystod y

golled drist a sydyn o golli priod, tad a thaid annwyl.

Diolch yn arbennig i Mr Bobbie Williams, Stryd Fawr, Wyn Griffiths, Vaynol Terrace a Meirion Davies, Tai Gwyrfa am eu cynorthwy, i hogia'r Ambiwllans am eu hymdrech deg, ac hefyd i'r Parchedigion John Pritchard a D Lloyd Williams a Father Macnamara am eu geiriau caredig a fu'n gymorth mawr ar yr amser trist. Diolch yn fawr am y blodau a'r cardiau, oedd yn rhy niferus i'w hateb yn unigol.

DIOLCH: Dymuna Beverley Thomas, 35 Rhydfadog ddiolch i'r teulu, ffrindiau a chymdogion am y llu cardiau a'r anrhegion a dderbyniodd ar achlysur ei phen-blwydd yn 18 oed.

DIOLCH: Dymuna Bryn a Diane Jones ddiolch i'w teulu, ffrindiau a chymdogion am yr holl gardiau a'r anrhegion a dderbyniasant ar achlysur genedigaeth eu merch fach, Michelle.

BEDYDD: Ddydd Sul, 21 Mai, bedyddiwyd Bedwyr Gwyn, mab ieuengaf Mr a Mrs Gwyn Parri, Cynefin, yn Eglwys Ebeneser. Gwasanaethwyd gan y Parch John Pritchard, y gweinidog.

DIOLCH: Dymuna Mrs Elsie Owen a'r teulu, 14 Bryntirion, Bethesda, ddiolch i'w ffrindiau yn ardal Deiniolen am bob arwydd o gydymdeimlad a ddangoswyd tuag ati, ar achlysur colli ei gwr, Hubert (H).

ENILLWYR CWM GWENDRAETH



Alaw Mari Hughes enillodd yr ail wobwr am wau scarff dan 8 oed yn Eisteddfod yr Urdd Cwm Gwendraeth.



Dylan Wyn Williams, ail wobwr Unawd Pres 15-19 oed.



Pedwarawd o'r Seindorf a enillodd yr ail wobwr yng nghystadlaeth Ensemble 12-15 oed.

TAN-Y-COED

Gohebydd: Miss Bethan Parry, Ael y Bryn. Ffôn: 872 276

HOFFAI Enid Roberts ddiolch yn fawr iawn i bawb a fu mor garedig wrthi pan oedd yn yr ysbyty yn ddiweddar ac ar ôl dod adref. Diolch am yr holl ymweliadau, galwau ffôn, a'r anrhegion a chardiau a dderbyniodd.

LLONGYFARCHIADAU i Mrs Alice Roberts, Bryn Marion gynt ar ddathlu ei phen-blwydd yn 80 oed ar Fehefin 13. Mae Mrs Roberts bellach wedi ymgartrefu yn Y Foelas, Llanrug.

LLONGYFARCHIADAU i Mrs Lizzie Jones, gynt o Bro

Rhyddallt, ar ei phen-blwydd yn 90 oed ar Mehefin 19.


GWELLHAD BUAN yw'n dymuniad i Beverley Roberts, Awelfryn ar ôl ei llawdriniaeth yn yr ysbyty yn ddiweddar.

LLONGYFARCHIADAU i Emyr Tomos, Tan y Cae, Tan y Coed ar ennill gradd BA mewn cyfathrebu gydag anrhydedd, yn y dosbarth cyntaf. Bwriada Emyr fynd ymlaen i wneud gwaith ymchwil yng Ngholeg Prifysgol Gogledd Cymru, Bangor yn y dyfodol agos.

**Cefnogwch
ein
Hysbysebwyrr**

LLEUFER O. ac N. PRITCHARD

CANOLFAN CARPEDI WAUNFAWR



DEWIS EANG O
WELYAU SENGL A DWBL
DEWIS EANG O '3 PEICE SUITES'
LLENNI 'VENETIAN' A LLENNI 'ROLER'
GWAITH CONTRACT

5000 LLATHEN SGWÂR O GARPEDI
MEWN STOC - ALLWCH CHI
FFORDDIO PRYNU O BATRYMAU?

Rhif Ffôn y Siop yn ystod oriau agor:
WAUNFAWR 291

AR AGOR
9-7pm
9-5pm Sadwrn
AR GAU
SUL,
MERCHER.

**DAFYDD
JONES**
SAER/JOINAR
2 Tai Caledffrwd
Clwt-y-Bont
Ffôn 872424

Gwneud a gosod grisiau,
ffenestri, drysau etc.



**Dim un
Joban rhy
fach!**

**J.M.
JONES**
A'I FEIBION
**GWAITH
CERRIG
BEDDAU**

Y SGWÂR, LLANRUG

Crefftwyr gwaith
llaw traddodiadol,
Cerrig o bob
math ar gael.

Ffôn:
Caernarfon 2989
(dydd)
Caernarfon 76285
(nos)

OSMOND SHAW DEINIOLEN

Gwerthu
a Thrwsio
Teledu Lliw Newydd
ac Fel Newydd
GWASANAETH
FFON24AWR
LLANBERIS 870545

PENISARWAUN

Gohebydd: Mrs Ann Evans, Sycharth (872407)

CROESO: Estynnwn groeso cynnes iawn i Mr a Mrs Rees a'r plant sydd wedi symud i fyw o Ynys Môn i gadw Siop Gron. Gobeithio y byddant yn hapus yn ein plith. Pob dymuniad da i John a Pat Owen yn eu cartref newydd a diolch iddynt am eu gwasanaeth yn ystod y blynyddoedd y buont hwythau yn cadw'r Siopp a'r Swyddfa Bost.

GWELLHAD: Bu nifer o'r pentrefwyr yn yr ysbyty yn ystod yr wythnosau diwethaf. Dymunir adferiad buan i Wil Jones, Mrs Evans, Bod Idris; Mr Bob Owen; Mr Humphreys; Mr John Jones a Siôn Bedwyr. Gobeithio'n wir fod yr ysbaid o'r tywydd braf yma yn codi calon pawb srall sy'n teimlo'n sâl yn ypentref.

LLONGYFARCHWN Pat a Leslie Larsen ar ddod yn nain a thaid eto, ganwyd mab bach, Elgan, i Trystan a'i wraig. Croeso cynnes hefyd i Anest, mech fach a anwyd i Judith ac Eifion Harding. Y Winllan - chwaer fach i Erin a Cenin. Llongyfarchiadau hefyd i Mr a Mrs Eli, Waun, ar enedigaeth eu mab bychan, brawd i Morrigan.

YSGOL TAN Y COED: Yn dilyn cywaith yn seiliedig ar stori gan Angharad Tomos, 'Diwrnod Golchi', bu dosbarth y babanod yng Nghanolfan Seion, Llanberis bnawn Mai 24ain. Gan fod y plant wedi bod yn astudio defnyddiau o bob math, cawsant gyfle i nyddu a gwehyddu yn y ganolfan. Diolchir i'r rhai fu'n barod i gludo'n plant yno.

Fel dilyniant i hyn daeth Mrs Julia Turner, i'r ysgol gydag olwyn nyddu a chafodd bob plentyn gyfle i nyddu. Diolch yn fawr i Mrs Turner am roi ei hamser i'r plant.

Yna, bore Mercher, Mehefin 14 fe gawsant ymweld â Theatr Seilo yng Nghaernarfon i weld Cwmni Theatr Dyfed - Arad Goch, yn perfformio Sioe Rwtsh Ratsh Rala Rwdins, gan Angharad Tomos. Roedd y plant wedi mwynhau eu hunain yn fawr - dau drip gwerth chweil.

Corddi menyng fu hanes dosbarth 1 a 2 a rhaid cyfaddef fod menyng Tawelfor a menyng Tyddyn Perthi yn fendigedig ar fisgedi Ritz.

Cynhaliwyd Gala Nofio Ysgolion Cynradd Arfon dan 100 mewn nifer, yn y Ganolfan Hamdden fore

Mercher Mai 25ain. Llongyfarchwn bawb o'r plant fu'n cynrychioli'r ysgol a diolch iddynt am wneud mor anrhydeddus. Diolchir i Mrs Susan Rowlands am helpu i gludo'r plant i Gaernarfon.

Dymuna staff yr ysgol bob hapusrwydd i Louise, Caitlin, Eleri, David, Daniel, Llion ac Arwel yn yr Ysgol Uwchradd ym mis Medi. Hwyl fawr a phob llwyddiant i chi blant.

TRIP YR YSGOLION SUL: Bydd y trip yn mynd i Rhyl, Sadwrn, Gorffennaf 8fed. Enwau rhag blaen i Ann Paterson ac Elizabeth Jones. Pris £3 i oedolion, £1.50 i blant ysgolion uwchradd, a £1 i blant cynradd, nad ydynt yn aelod o'r ysgolion Sul. Bydd y bws yn cychwyn am 9.30 yn brydlon.

CLWB YR HEULWEN: Pnawn Mawrth, Mehefin 20fed, dangoswyd Fideo, 'Gofal am yr Henoed' gan Mr William Blackwood o Gaernarfon. Anfonwyd cofion at bawb sy'n sâl yn y pentref. Rhoddwyd y te gan Mrs Gwyneth Jones a Mrs Nellie Roberts. Enillwyd y raffl gan Mrs Jennie May Jones. Bydd y cyfarfod nesaf, bnawn Mawrth, Gorffennaf 18fed.

DIOLCH: Dymuna Siôn Bedwyr ddiolch i bawb am y cardiau, anrhegion a galwadau ffôn wedi ei driniaeth yn Ysbyty Gwynedd.

Dymuna Nia a Sioned Lewis, ddiolch am bob cefnogaeth a charedigrwydd pan oeddent yn cystadlu ar y Dawnsio Gwerin Unigol yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd yng Nghwm Gwendraeth.

PWYLLGOR NEUADD: Tynnir Clwb Cant Mehefin mewn noson o fideo Priodferch y Flwyddyn yng ngofal Myfanwy Parry. Tynnir Clwb Cant Gorffennaf yn Sycharth. Gobeithir cael 'Ras Hwyaidd' yn niwedd mis Awst a thynnir Clwb Cant Awst ar y diwrnod hwnnw.

Bydd y Carnifal eleni ym mis Medi o 11-16.

ADRAN YR URDD: Mabolgampau'r Sir Nos Fercher, Mehefin 21 ar gaeau'r Coleg Normal, Bangor. Diolch i Hefina, Andrea, Nia, Sioned a Llyr am gystadlu yn y Mabolgampau. Cawsom ddigon o hwyl ar y noson.

DIOLCH: Dymuna Irfon a

NOFWYR YSGOL TANYCOED



Heddwyn, Ty 'Raridd, Waun ddiolch yn fawr am y cardiau a'r anrhegion ar enedigaeth eu mab Iwan Wyn. Dymuniadau gorau a llongyfarchiadau i chwi fel teulu oddi wrth y pentrefwyr i gyd.

YR EISTEDDFOD BENTREF

Nos Wener, Mehefin 23 cynhaliwyd yr Eisteddfod yng Nghapel Glascoed. Dyma'r canlyniadau:

CANU

Plant cyn oed ysgol: 1. Cennin; 2. Iwan; Cyd 3: Urien, Karen, Emma, Ian, Heledd, Manon, Mathew a Haydn. **4-6:** 1. Erin; Cyd 2: Alaw, Rachel ac Eurig; Cyd 3: Charlotte, Nia a Nicola. **6-8:** 1. Elgan; 2. Wena; Cyd 3: Nia a Lynne. **8-10:** 1. Tracey; Cyd 2: Sion, Dafydd a Vanessa; 3. Gwenllian. **10-12:** 1. Eleri; 2. Lois; 3. Huw. **Cân Werin dan 12:** 1. Sioned; Cyd 2: Lois ac Eleri; 3. Dafydd. **12-16:** 1. Delyth; 2. Hefina; 3. Sioned. **Cân Werin 12-16:** 1. Delyth; 2. Hefina; 3. Catherine. **Cân ysgafn dan 18:** 1. Howard, Dylan a Bryn. **Deuawd 12-18:** Sioned a Hefina. **Meim i Record:** Y Cysgodion. **Parti Babanod:** 1. Parti Erin; 2. Parti Lynne. **Parti dan 12:** 1. Parti William; 2. Parti Eryl. **Parti deulais dan 18:** Parti Elizabeth Ann. **Parti Unsain Oedolion:** Cyd 1: Parti Rhian a Parti Nansi.

ADRODD

Plant cyn oed ysgol: Cyd 1: Iwan, Cennin, Karen, Heledd a Manon. Gwobr hefyd i Urien, Mathew a Haydn. **4-6:** 1. Erin; 2. Nicola. **6-8:** 1. Elgan, 2. Wena; 3. Stephen a Lynne. **8-10:** 1. Dafydd; 2. Tracey. **12-16:** 1. Delyth; 2. Sioned Wyn. **Oedolion:** 1. Eifion Harding. **Parti oed Uwchradd:** Parti Hefina. **Parti Oedolion:** 2. Parti Medi; 3. Parti Daz. **Cyflwyniad Dramatig:** 1 Parti Joban Newydd.

ARLUNIO

Plant cyn oed ysgol: 1. Emma; 2.

Deian; 3. Ian. **4-6:** 1. Anna; 2. Alaw; 3. Mathew. **6-8:** 1. Nia G.; 2. Lynne; 3. Elgan. **Safon 1:** 1. Tracey; 2. Siôn; 3. Ben. **Safon 2:** 1. Ynyr; 2. Steven; Cyd 3: Gwenllian ac Angela. **Safon 3:** Cyd 1: Lois a Daniel R.; 2. Tristan; 3. Paul. **Safon 4:** 1. Daniel Eyre; 2. Sioned; 3. Arwel. **12-16:** Cyd 1: Osian a Llyr; 2. Susan; 3. Andrew. **Oedolion:** Julia Turner.

GWAITH LLAW

Plant cyn oed ysgol: 1. Manon; Cyd 2: Haydn a Catrin; 3. Heledd. **4-6:** 1. Alaw; 2. Eurig. **6-8:** 1. Christopher; 2. Wena; 3. Dion. **8-10:** 1. Angela; 2. Tracey; 3. Gwenllian. **10-12:** 1. Lois; 2. Huw. **12-16:** 1. Owen; Cyd 2: Sioned Lewis a Susan. **Oedolion:** Cyd 1: Helen Owen a Mrs Percy Williams; Cyd 2: Glenys Williams a Mrs Olwen Jones, Llanllyfni.

COGINIO

dan 12: 1. Gwenllian; Cyd 2: Sioned a Lois. **12-16:** Susan. **Oedolion:** Cyd 1: Janice a Judith; Cyd 2: Judith ac Elinor.

BARDDONIAETH

8-10: 1. Llyr; 2. Ynyr; Cyd 3: Dafydd a Sian. **10-12:** 1. Huw; 2. Eira; 3. Lois. **12-16:** Llyr Tegai.

RHYDDIAITH

Grwp 1 Babanod: 1. Rachel; 2. Charlotte; 3. Laura. **Grwp 2 Babanod:** 1. Erin; 2. Mathew; Cyd 3: Alaw, Aurig, Anna a Nia Louise. **Babanod uchaf:** 1. Christopher; 2. Elgan; 3. Daniel Fletcher. **Safon 1:** 1. Tracey; 2. Vanessa; 3. Dafydd. **Safon 2:** 1. Llyr; 2. Cathryn; Cyd 3: Ynyr a Gwenllian. **Safon 3:** 12. Huw; Cyd 2: Lois, Daniel, William ac Eira. **Safon 4:** 1. Louise; Cyd 2: Eleri a Caitlyn; Cyd 3: Llion ac Arwel. **12-16:** Susan. **16-18:** Eurgain Haf.

Cyflwynwyd Cwpan yr Eisteddfod i Eurgain Haf am y cynnyrch llenyddol gorau yn yr Oedran Uwchradd a chyflwynwyd

Parhad ar Dudalen 7



Angharad Tomos yn ymweld â phlant ieuengaf yr Ysgol.

Am waith
PEINTIO, ADDURNO
a mân atgyweirio oddi mewn
neu tu allan am bris rhesymol
cysyllter ag

ERIC JONES

17 BRYN TIRION

PENISARWAUN

Ffôn: LLANBERIS 872421

GWERTHFAWROGIAD



Rhai o hogiau a genethod Penisarwaun a fu'n cicio pêl drwy'r tymor dan hyfforddiant eu rheolwr, lan, yn cyflwyno tancard iddo ar ei ben-blwydd yn 18 oed, fel arwydd o'u gwerthfawrogiad.

Tarian yr Eisteddfod i Huw Tegid am y cynnyrch gorau yn yr oedran cynradd.

DIOLCHIAU: I Swyddogion Capel y Glascoed am gael defnyddio'r capel i gynnal yr Eisteddfod ac i swyddogion Eglwys Santes Helen am gael ymarfer yn Neuadd yr Eglwys, i aelodau'r pwyllgor fu'n gwerthu'r testunau ac i rai o blant yr ysgol am werthu'r tocynnau. Cyflwynwyd £1 o wobwr i William Lewis am werthu'r nifer mwyaf o docynnau. Diolch i athrawesau a phrifathro Ysgol Tan y Coed am gael defnyddio neuadd yr ysgol i feirniadu'r gwaith llaw a'r arlunio ac am eu cyd-weithrediad yn goruchwyllo'r gwaith ysgrifenedig a gwaith arlunio'r plant. Diolch i Mrs Ann Jones am wneud y rubanau ac i Sioned Lewis, Andrea, Hefina a Delyth am eu rhannu: a diolch i Mr Leslie Larsen ac eraill fu'n gofalu am y drysau.

Diolch i'r beirniaid: Mrs Megan Roberts, Llanrug (Cerdd); Mr Ken Huws, Llanllyfni (Llên ac Adrodd); Miss Doris Adlam (Coginio a Gwaith Llaw) a Mr Arnold Jones (Arlunio); i'r gyfeilyddes, Mrs Mair Huws, Llanrug ac i'r arweinyddion: Mrs Elizabeth Jones a Miss Phyllis Ellis. Diolch hefyd i Lywydd y noson: Mrs Olwen Peris Jones, Caernarfon ac i bawb a gefnogodd yr Eisteddfod mewn unrhyw fodd. Diolch hefyd am bob rhodd a

dderbyniwyd tuag at y treuliau a diolch i'r trysoryddion: Mrs Eilrys Williams a Mrs Pat Jones.

Diolch yn arbennig i gyfaill a gyflwynodd fedalau eleni i'r bud-dugwyr yn y cystadlaethau canu ac adrodd oedran cynradd. Hoffai'r ysgrifennydd ddiolch i lywydd y pwyllgor, Mrs Nancy Jones am hyfforddi'r plant ar gyfer yr Eisteddfod ac i bawb arall fu'n hyfforddi'r plant i gystadlu yn unigol ac fel partion, a thrwy hynny sicrhau eisteddfod lwyddi-annus a hwyliog iawn eto eleni.

TERRY GRIFFITHS

Un yn llawn sgiliau mewn gêm o snwcer, yn taro'r goch yn gelfydd i'r canol ac yna, yn cael rhediad anhygoel ac anferthol.

Yn codi o'i sêl gyfforddus ac yn cerdded at y bwrdd, yn taro'r bêl yn unionsyth ac yn wych i'r boced waelod, yn chwaraewr ffantastig ac yn wr bonheddig.

Huw Tegid

Gobeithir cyhoeddi sgript Eurgain yn y rhifyn nesaf o'r 'Eco'.

YSGOL BRYNREFAIL

Clwb Drama Dosbarth 1E

Gwers olaf fore Mercher ar ddechrau tymor yr Haf oedd hi. Roedd gan ddosbarth 1E wers rydd oherwydd bod yr athrawes yn rhoi arholiadau i'r chweched dosbarth.

Eisteddai Dylan Lloyd Jones a Martin Steven Thomas gyda'i gilydd yn rhes flaen y dosbarth. Ers dyddiau roedd y ddau wedi bod yn ymhel â'r syniad o ddechrau rhyw glwb actio yn y dosbarth.

Ar ôl rhoi syniadau i lawr ar bapur, aeth Dylan at un o ferched dealus y dosbarth, Caroline Jones, i ofyn ei barn hi.

Canlyniad hynny oedd i holl ddisgyblion y dosbarth roi eu henwau i lawr ar yr hen sgrap o bapur bler, a phan ganodd y gloch ginio, aeth Dylan a Caroline i weld eu hathrawes Cymraeg, Mrs Rhian Ellis, a gofyn iddi hi am ei barn.

Erbyn egwyl y bore canlynol roedd rhestr pwyllgor wedi ei chyhoeddi, a'r cyfarfod trefnu cyntaf wedi bod.

Ond pam dechrau Clwb Drama mewn dosbarth o ddeunaw o blant?

Yn gyntaf am fod y dosbarth wedi bod yn actio dipyn yn y gwersi Cymraeg ac Addysg Bersonol, a chael blas mawr ar hynny.

Yn ail, nid yw drama yn rhan o'n hamserlen.

Mewn cyfarfodydd y clwb bob p'nawn dydd Mercher am ddeg munud i un. Rydym yn dysgu dwy ddrama fer ac yn gobeithio cael eu hactio yn ystod wythnos olaf y tymor.

Felly, Mr. Elfyn Thomas, mae Dosbarth 1E eisiau gwersi Drama y tymor nesaf, plis!

Dylan Lloyd Jones.

Y CRIW HWYLIOG FU'N CODI ARIAN



Pnawn dydd Gwener, 16 Mehefin, am hanner awr wedi datdechreuodd gem bwysig hwyliog o beldroed 5 pob ochr ar gae'r ysgol Genethod dosbarth 1E oedd yn herio bechgyn y dosbarth.

Roeddem ni, y genod wedi bod yn brysur yn ymarfer ers dyddiau ac yn benderfynol mai ni oedd am ennill y gem. Roeddem yn rhedeg c amgylch y cae fel magedau yn sownd yn yr hogia!

Claire oedd golgeidwad dewr y genethod a chafodd y clod o fod yn chwaraewraig orau'r gem. Ar ôl i'r gem orffen roedd yr hen Claire druan yn blasteri i gyd! Richard, golgeidwad y bechgyn oedd y peldroediwr gorau, a doedd o ddim mymryn gwaeth ar ddiwedd y gem.

Roeddem yn ffodus dros ben o gael peldroedwraig broffesiynol yn ein tîm ni – Mrs Glenys Morgan o Fethesda. Yn ogystal daeth Bryn Carwyn, yn ei siorts melyn a glas llachar, i'n cynorthwyo hefyd cyn

diwedd y gem. Ond rhaid i ni gyfaddef mai colli fu ein hanes – roedd yr hogiau yn rhy gyflym i ni y tro yma! Cawsom gweir iawn a'r sgôr terfynol oedd 7-2 i'r hogiau.

A dweud y gwir, dydi'r sgôr ddim yn bwysig – fe gawsom ni andros o hwyl a Mrs Ellis a Mrs Owen yn gweiddi fel pethau gwirion i'n cefnogi ni.

Hel arian i gronfa Clwb Drama 1E oedd y nôd ac mae'r arian yn llifo i mewn yr wythnos yma.

Diolch i Martin a Dylan Lloyd am drefnu ac i'r hogia am gymaint o hwyl!

Ond hogia, rydyn ni'n dechrau ymarfer rwan ar gyfer y gem nesa' – felly lwcowt!

Louisa, Llinos a Chatherine.

Aled Jones

Peiriannydd
Gwres Canolog
a Phlymio

4 Bryn Eglwys
Penisarwaun
Ffôn: Llanberis
871047



I weled ein crôg fasgedi – a'r grug
Sydd mor grand, a pherthi
O goed fyrdd, i wyrdd erddi
Dowch oll i'r Antur, da chwi

CANOLFAN ARDD ANTUR WAUNFAWR

Ffôn: Waunfawr 721

Am flodau gardd i harddu – a llysiau
Sy'n llesol i'r teulu
Ewch heibio i archebu
Yno lwyth planhigion lu

* GRUG
* ALPAU
* PERTHI
* LLYSIAU

YR UGAIN MLYNEDD DIWETHAF

Anodd credu bod ugain mlynedd er pan gauwyd Chwarel fawr Dinorwig yn ddi-rybudd ar ddydd Gwener y pymthegfed o Orffennaf 1969. Daeth y newydd fel cwmwl du tros yr ardaloedd cylchynol ac crys ei gysgod o hyd.

Gwelwyd newid syfrdanol mewn sawl cyfeiriad, a'r amlycaf yn sicr ar diriogaeth y chwarel ei hun. Daeth terfyn ar gloddio allanol ponciog yr hen chwarel o'i throed i'w brig, yn dilyn dwy ganrif o gynhyrchu cyson, tystia'r tomenydd rwbwl anferth mud. Newidiwyd patrwm cyfraniad yr hen Elidir o fod yn allanol weledig, tyllwyd i'w dirgelion mewnol tywyll, a chloddwyd ohoni siamberi anferth yn weithdy twrbeinaidd, ac arllwyswyd i'w pherfedd trwy dwneli anferth, ddwr Marchlyn Mawr ac esgorwyd ar Bwerdy Trydan Dwr Dinorwig.

Yn Ninorwig ei hun bu newid sylweddol yn y tirwedd. Dymchwelwyd yr hen adeiladau perthynol i'r chwarel a'r tomenydd rwbwl a'u tywallt i lenwi tyllau'r Chwarel fawr a'r Allt Ddu. Unionwyd y ffordd droellog a thirluniwyd y llethrau, pibellwyd dwr gwyllt yr Afon Wen yn greffus am Lyn Padarn, "Gwelir coed a phorfa lle bu'r tyllau dyfn, a dringwyr yn rhyfygu ar glogwyni llyfn."

Yn Neiniolen gwelir newid mewn sawl cyfeiriad, lle bu dwy res o siopau a mwy, heddiw un siop gig, llythyrdy, becws, yr hen Goparet, siop carpedi, (y tair olaf dan berchnogaeth Saeson) siop trin-gwallt, dwy dafarn, dwy dafarn datws a gweithdy'r gwydrwyr.

Ni cheir yma Weinidog na Ficer trigiannol, a'r Ficerdy sydd yn Noddfa anffodusion cymdeithas, dau dy gweinidog ym meddiant Saeson, llawer o dai'r pentref, Gallt y Foel a'r tyddynnod ar lethrau Gwaun Gynfi Dinorwig a'r Fachwen yn gartrefi llawn amser neu yn dai haf i Saeson. Cauwyd capel Wesla a gwelir adeilad newydd wrth ei ochr, y ddau yn weithdai golygfeydd tele-

du. Mae capel mawr Disgwylfa yn segur, y mae'r Ffestri yn ddigon i ofynion y gweddill aelodau ffyddlon.

Yng Nghlwt y Bont yr un yw'r stori, perchenog y llythyrdy sydd dramorwr tywyll ei groen. Ar safle'r Hen Felin Sam bu newid sylweddol, lle bu adeiladau'r fferm codwyd ffatri cynhyrchu offer dringo a gwelir dibenion newydd i'r hen felin. Gerllaw gwelir Capel Maes y Dref yntau wedi dibennu fel addoldy ac yn cael ei addasu i bwrpas arall. Peidiodd Plas Eryr fel meddygfa, ni cheir yma feddyg arhosol mwyach. Lle bu tai Knocin, fe'i cnociwyd i lawr a chladdwyd yr hen erddi cymen dan dunelli o rwbwl ac enillwyd gwastadedd eang hyd at ymyl y Galedffrwd, ac arno codwyd ty golygus ac arosfa i goetsus a lorïau.

Daeth terfyn ar yr hen gymdeithas sefydlog, newidiodd y patrwm byw i gymdeithas fodurrol ansefydlog a'i gweithio sifftia, gwelir diddordebau ac arferion gwahanol.

Collodd y Sul ei barch a'i ystyr, prinhaodd gweinidogion ac offeiriaid, a torrwyd ar wasanaethau'r Sul. Agorwyd y tafarndai a'r siopau diod, aeth disgblaeth allan trwy'r ffenestr mewn llawer cylch, dirywiodd moesgarwch a blachder bro. Sylwer ar yr ysbwriel yn ein pentrefi ac ar ochrau'r ffyrdd, tuniau gweigion wrth y cannoedd, cyfroiau o bapura budr a llatheni o blastig yn grôg ar ddraen a gwifrau. "Y ffordd i'r bin sydd bell a thrafferthus, gollwng o wrth dy draed".

Daeth arferion a dylanwadau llygredd yr oes i'n hardaloedd mewn cyffur a glud a phob ffieidd-dra, a gorchest yw fandaleiddio.

"A heuo wynt, a fêd gorwynt"

CWM-Y-GLO

Gohebydd: Mrs Iris Rowlands, 'Glanrafon' (872275)

CWM Y GLO

DYMUNIADAU HAPUS i Mr Richard Arthur Roberts, 1 Bryn Gro ar ei ben-blwydd yn 90 ar yr 2il o Orffennaf.



DIOLCH: Dymuna Mrs Ifanwy Jones, Min y Nant ddiolch o galon i'w theulu, ffrindiau a chymdogion am yr holl ddymuniadau da, yr anrhegion, y cardiau a phob caredigrwydd a dderbyniodd tra'n cael triniaeth yn Ysbyty Dewi Sant yn ddiweddar.

CLWB POBOL Y CWM: Pleser oedd cael croesawu Mr John H Hughes, Llanberis i'r Clwb bawn lau, Mehefin 1af. Rhoddodd sgwrs ddiddorol ar gefndir a doniau arbennig beirdd adnabyddus y gorffennol, yn neilltuol R Williams Parry, sydd yn ffefryn iddo oherwydd ei hoffter o ganu yn helaeth am natur. Gwr naturiol werinol oedd a'i bryder mwyaf oedd gweld llygredd yn raddol ddifetha natur, a dyna yn sicr yw ein pryder ninnau yn yr oes fodern hon. Diolchwyd iddo gan Mr R H Parry.

Gwnaed trefniadau gogyfer y wibdaith dydd Mercher, Mehefin 21. Dymunodd Mr Richard Roberts ymddiswyddo fel ysgrifennydd y clwb a dewiswyd Mrs G Chick i'w olynu. Diolchodd y llywydd, Mr Llew Hughes, iddo am ei wasanaeth a'i ddiddordeb diflino. Gofalwyd am y baned gan Mrs R Rowlands a Miss M Davies. Rhoddwyd y raffl gan Miss M Davies a enillwyd gan Mrs M Williams.

YSGOL GYMUNED

Nofio: Bu pedwar ar ddeg o blant yr Adran lau yn cymryd rhan yn y Galan Nofio yng Nghaernarfon. Foddodd neb a daeth sawl un i fewn yn ail neu'n drydydd. Llongyfarchiadau i Martin Parry a lola Davies ar gael tystysgrif am eu hymdrech. Diolch i Mrs

Williams (mam Darren) am fynd efo'r plant.

Gwaith Da: Ar eu liwt eu hunain, aeth saith o fechgyn ati i drefnu taith redeg nodedig. Casglwyd dros £200 er mwyn chwyddo Cronfa'r Galon. Diolch i Bryn, Terry, David, Tony, Darren, Martin a Gareth am fod mor feddylgar.

Sioe: Aeth plant yr Adran Babanod i weld Sioe Rwtsh Ratsh Rala Rwdins. Cafodd pawb, gan gynnwys Mrs Morris, Mrs Jones, Mrs M Williams a Judith Roberts fwynhad mawr. Prawf o lwyddiant y sioe oedd i'r plant fod yn brysyr yn actio'r cymeriadau ar yr iard am ddyddiau wedyn.

Pêl-droed: Ydych chi'n cofio i ni chwarae gêm yn Llandwrog. Wel, ar y 14eg o Fehefin cafwyd yr ail gymal yng Nghwm y Glo. Er cystal y gêm gyntaf, yr oedd hon yn well o'r hanner efo mwy o le ar y cae yn Cwm. 10-2 oedd y sgôr; gôl bob un i Darren a Glyn a saith i Terry. Dim rhyfedd felly iddo gael ei ddewis i gynrychioli tîm 6 bob ochr yng Nghystadleuaeth y Chronicle.

Ffarwelio: Wedi dod yma bob pythefnos am bron i flwyddyn daeth cyfnod Miss Judith Roberts (o'r Bala) yma i ben. Pob dymuniad da iddi yn y dyfodol a diolch o galon am yr anrhegion.

Pen-blwydd: Yn ystod y mis diwethaf dathlodd Mrs Alwen Jones ei phen-blwydd. Chawn ni ddim dweud faint yw ei hoed - ond flwyddyn nesaf mi fydd ddeuddeg mis yn hyn na ma' hi rwan.

Mabolgampau: Cofiwch am y Mabolgampau ar Gae y Pentref ar Orffennaf 1af. Pawb mewn trowsus bach a 'sgidia dal adar plis. Dechreuir am 2 y pwnn. Gobeithio y dalith y tywydd ynte?

Gwibdaith: Sôn am y tywydd yn dal - croeswch eich bysedd ar ein cyfer dydd Mawrth, Mehefin 27ain pan fyddwn ar drên bach Ffestiniog ac yn Llechwedd. Dyna ydi braf, ynte?

Wel, rhaid cau pen y mwdwl am y tro, hwyl fawr! Gyda llaw, os gwyddoch am rywun sydd eisiau gwerthu uchelseinydd a meicrofôn neu delescôp neu finociwlars - gadewch i ni wybod. Llanberis 870860 ydy'r rhif. Diolch yn fawr.

HOME IMPROVEMENT CENTRE

FFORDD YR ORSAF, LLANRUG

Ffôn: C'fon 2122

ar gyfer...

Paent, Papur wal,	Anghenion Tŷ,
Anghenion addurno,	Garddio,
Coed, Tywod, Gro,	Hadau Unwin,
Brics, Blociau,	Hardware, nwyddau
a Sment,	Ironmonger
Offer plymio	Teganau

CABS LLANRUG



C'FON 5951

Prisiau cystadleuol.
Gwaith contract
pell ac agos

LLANRUG

Gohebydd: Mrs Dyfi Jones, Tyddyn Rhuddallt (Caernarfon 76733)

Y CHWIORYDD: Cynhaliwyd cyfarfod y chwiorydd yn Festri Pontrhythallt bawn lau, Mehefin 15fed. Dechreuwyd y gwasanaeth gan Mrs K Griffiths, Fron Hyfryd a chafwyd adroddiad o Sasiwn Genhadol y Chwiorydd a gynhaliwyd ym Mhwlheli.

Rhodddwyd y te gan Miss E W Jones, Hedsor Villa Mrs E W Thomas, Dolwar. Talwyd y diolchiadau gan y lwydd Mrs J Williams Bod Fair. Bydd y cyfarfod nesaf ar 20fed o Orfennaf am 2 o'r gloch.

PLAID CYMRU: Enillwyd y clwb cant am fis Mai oedd 1. Raymond Ll Jones, 2 Bryn Fedwen; 2. Dr Eirwen Gwynn, Talybont. Enillwyd mis Mehefin oedd 1. Eryl Roberts, 3 Bryn Moelyn; 2. Phyllis Ellis, Penisarwaun.

Anfonwn gofion at amryw o aelodau a chyfeillion sydd wedi bod yn cwyno yn eu cartref neu yn yr ysbyty yn ddiweddar. Brysiwch weila pawb.

PWYLLGOR APÊL YR URDD: Nos Iau, Gorffennaf 6ed cynhelir Sêl Cist Car ar fuarth Ysgol Gynradd Llanrug. Mynediad - £2 y car. Ar yr un noson ceir gwobrwyo enillwyr yr Helfa Drysor "Nabod fy Mhentref" a datgelu'r atebion. Cofiwch ddod â'r atebion i law erbyn nos Fawrth, Gorffennaf 4.

YR YSGOL GYNRADD: Balch iawn ydym o gael croesawu Mrs Mair Lloyd Huws yn ôl i'n plith. Ar yr un pryd teimlwn beth tristwch o golli gwaith a chwmnïaeth Mrs Nan Humphreys. Diolchwn iddi am ei chyfraniad a phob dymuniad da.

Ar Fai 25ain cynhaliwyd Noson Goffi lwyddiannus iawn tuag at gostau Eisteddfod yr Urdd Gwm Gwendraeth. Diolch yn fawr i'r rhieni fu'n trefnu'r stondinau, i'r rhai gyfrannodd mewn unrhyw ffordd ac i bawb gefnogodd yr ymdrech ar y noson.

Treuliodd 21 o blant Safon 4 ychydig ddyddiau yng Nghanolfan Rhyd Ddu. Cawsant dywydd bendigedig i fwynhau'r holl weithgareddau.

Llongyfarchiadau i Mr Twrog Elis Jones, dirprwy'r ysgol ar gael ei benodi yn brifathro Ysgol Llandwrog. Pob dymuniad da iddo pan fydd yn cychwyn ar ei swydd

newydd ym mis Medi.

Yn Mabolgampau Sir yr Urdd ym Mangor - y genethod fu'n llwyddiannus eleni. Daeth y tîm ras gyfnewid dan 10 oed a'r un dan 12 oed yn fuddugol.

Cawsom fyfyrwyr o Ynysoedd Gorllewin yr Alban yn ymweld â'r ysgol am ddiwrnod. Roeddynt yn treulio cyfnod yn y Coleg Normal Bangor.

Dydd Mawrth, Mehefin 6 daeth Mr Robert Williams, Llain Gwta atom i sgwrsio â phlant Safon 4 am Lanrug yn yr hen ddyddiau. Dyma bytiau am ei ymweliad drwy lygad dwy o'r genethod.

Hanesydd yn yr ysgol

Dydd Mawrth, Mehefin 6 daeth Mr Robert Williams o Llain Gwta, Gwêl Fynydd i siarad gyda'n dosbarth ni, Safon 4. Cawsom brynhawn diddorol iawn yn gwrandio arno yn sgwrsio am Lanrug yn nechrau'r ganrif. Bachgen o Geunant oedd Mr Williams yn wreiddiol. Bu yn brifathro am flynyddoedd yn Ysgol Clynnog a Brynaerau, yna ar ôl i Mr Williams ymddeol, symudodd yn ôl i fyw i Lanrug. Roedd gan Mr Williams gannoedd o atgofion o'r gorffennol, er enghraifft, pan oedd yn hogyn ifanc yr oedd carnifal yn Bryn Bras ac roedd trefnwyr y carnifal yn cael benthyg "Daily Mail push ball" ac roeddynt hwy yn cael rhyw gystadleuaeth gwthio'r bêl anferth.

Judith Glaister

Dydd Mawrth, Mehefin 6 daeth Mr Williams i'r ysgol i sôn am hanes Llanrug. Mae ganddo gof da iawn o'r ardal. Yn gyntaf dechreuodd siarad am afonydd yn Llanrug. Afon Wen ydy enw iawn ar afon Ogwen. Hefo Safon 4 y daeth i siarad am ein bod yn gwneud cywaith am "Berthyn", ac roedd rhai yn gwneud nodiadau o beth oedd yn ei ddweud. Roedd hefyd yn sôn am y "Daily Mail push ball". Efallai bod rhai ohonoch yn cofio. Capel o'r enw Dura, Tanycoed oedd ty Beverly Roberts (Safon 3), sef Awelfryn, ac hefyd yr oedd yn dweud mai clai sydd o dan Llanrug i gyd. Mi roeddwn i yn meddwl ei fod yn arbennig o dda yn cofio yr holl bethau am Llanrug.

MERCHED Y WAWR LLANRUG YN YMWELD Â CHAPEL SALEM



Roedd yn dangos map o Llanrug ac mi roedd o yn dweud mai siap pen ci oedd map o blwyf Llanrug. Dwedodd bod Castell Bryn Bras wedi cael ei adeiladu yn y flwyddyn 1830 gan Thomas Williams, Cyfreithiwr o Fangor. Ac mi roedd hefyd yn dweud mai Capel Hermon oedd y tri ty sydd yna rwan yn Nheras Hermon. Ac hefyd mi hoffwn ddiolch iddo am ddod i'r ysgol i siarad gyda ni Safon 4.

Lynne Schudlak

MERCHED Y WAWR: I gloi blwyddyn o weithgareddau amrywiol trefnwyd noson lwyddiannus iawn gan Nan Humphreys yr ysgrifenyddes. Cawsom noson heulog braf i fwynhau taith i Gwm Nantcol. Daeth un o aelodau Capel Salem atom i'r capel i ddweud dipyn o'i hanes a'r darlun enwog o Sian Owen. Oddi yno wedyn i Dalsarnau lle mwynhawyd pryd ardderchog yng Ngwesty Tre Gwylan. Enillwyd y raffl gan Jean Roberts ac Olwen Huws. Diolchodd Ann Evans y llywydd i Nan am drefnu'r noson ac i Margaret Parry sy'n gorffen ei swydd fel trysorydd. Cawsom adroddiad o Bwyllgor yr Anabl gan Mrs Lovatt a diolchodd y llywydd am ei chyfraniad hithau i'r cyfarfodydd eleni. Bydd y gangen yn ail gychwyn yn yr ysgol gynradd ar Fedi 12fed. Bydd croeso mawr i aelodau newydd i'n plith.

LLONGYFARCHIADAU i Catrin Thomas a Delyth Humphreys o

Ysgol Sul Pontrhythallt ar eu llwyddiant gyda'r Arholiad Sirol, Henaduriaeth Arfon. Cânt eu gwobrwyo mewn cyfarfod arbennig yn Theatr Seilo, Caernarfon, nos Fercher 28ain Gorffennaf. **DIOLCH:** Dymuna Twrog Jones, 23 Glangfynnon ddiolch o waelod calon i bob un sydd wedi dymuno'n dda iddo ar ei benodiad yn bennaeth Ysgol Llandwrog.

CEFNOGWCH EIN HYSBYSEBWYR

CRIB COCH

**Y Sgwâr, Llanrug
Ffôn: Caernarfon
76772**

**TRIN GWALLT I
BAWB O'R TEULU
GAN JEN**

**Ffoniwch neu galwch
i drefnu amser**

YSTORFA LLANRUG

(Richard a Meirwen Williams)

**Ffôn:
Caernarfon 2790**

Ar agor:
Llun - Gwener: 7.30 - 6
Sadwrn: 8 - 5
Sul: 9 - 12
Eich siop leol hefo'r
oriau hwylus

- Jig i Atgyweirio Cyrff
- Tiwnio Crypton
- MOT
- Ail-Sbreo
- Tracio
- Balansio Olwynion
- Gwasanaethu
- Cymysgu Paent
- Gwerthu Ceir Newydd ac Ail-law
- Partiau Renault
- Petrol ESSO a DERV
- Sigarennau a Melysion
- Calor Gas

PRIF GYNRYCHIOLWYR



YNG

NGWYNEDD

Perchennog: E.P. Hughes

MODURDY DOLYDD

GROESLON Ffôn: Llanwnda 830562

NANT PERIS

Gohebydd: Ann Fleming,
'Dolwen', 8 Nant Fynnon
(871457)

DIOLCH: Dymuna Mrs E C Roberts, 3 Tanybryn, ddiolch i bawb am y llu cardiau ac anrhegion a dderbyniodd ar ei phen-blwydd.

CASGLIAD: Casglwyd £20.60 at Gartref Eithinog. Diolch i bawb am gyfrannu.

DERBYN YN GYFLAWN AELOD: Confirmiwyd Owen Tudur, Tanybryn yn Eglwys St Padarn, Llanberis ar Fehefin 18.

I'R YSBYTY: Aeth Alan Pritchard ar ei ymweliad cyntaf i Ysbyty Harefield, Llundain ar y cyntaf o Fehefin. Dymunwn yn dda i Alan.

Gwelwyd tri rhyfeddod yn Nhreialon Nant Peris a'r Cylch eleni ar Fai 26 a 27, roedd yr haul yn tywynnu, cyfaddefodd mwy na un cystadleuydd fod dros 50 oed, a disgynnodd gwr gyda 'para glider' ar y cae brynhawn Sadwrn tra yr oedd ci John Jones, Hen Golwyn yn rhedeg. Sicraodd hyn awyrgylch braf i'r nifer fawr o'r cystadleuwyr a ddaeth o Gymru a Lloegr i gystadlu a bu'r Treialon yn llwyddiant eto eleni.

Dyma'r canlyniadau:

Dosbarth Agored - Cwpan Morris Bros

1. W D Williams, Aberdaron (Time); 2. John Ryan Griffith, Talysarn (Dan); 3. John Goronwy Edwards, Llanrhaeadr ym Mochnant (Jockey); 4. J E Lightfoot, Llandegla (Black); 5. E L Morgan, Aberystwyth (Rock); 6. J Ryan Griffith, Talysarn (Glen); 7. M Evans, Llanfachreth (Non); 8. John Goronwy Edwards, Llanrhaeadr ym Mochnant (Tweed); 9. Glyn Jones, Bodfari (Cap); 10. Glyn Jones, Bodfari (Taff).

Ail Ddosbarth -

Cwpan Wavell Roberts

1. T S Morgan, Llanrhaeadr ym Mochnant (Nip); 2. Dafydd Pritchard, Nant Peris (Roy); 3. Elwyn Griffith, Waunfawr (Roy); 4. Goronwy Jones, Talybont, Bangor (Mali); 5. G Jones, Tremadog (Ben); 6. Emlyn Parry, Caernarfon (Sally).

Enillwyd Tarian Gwesty'r Fictoria (y gorau lleol yn y Dosbarthiadau Agored/Ail Ddosbarth gan Dafydd Pritchard, Nant Peris.

Dosbarth Lleol -

Cwpan Gwesty Dolbadarn

1. John Closs, Llanberis (Dot); 2. Huw Roberts, Bethel (Jeff); 3. Ian Kenny, Dinorwig (Drift); 4. Michael Williams, Cwm y Glo (Roy); 5. John N Pritchard, Nant Peris (Bess); 6. Dafydd Pritchard, Nant Peris (Roy).

Enillwyd Cwpan F.M.C. i'r cystadleuydd gorau dan 25 oed gan Dafydd Pritchard, Nant Peris gyda Roy.

Enillwyd Cwpan R Williams, Mynytho i'r cystadleuydd gorau dan 25 oed (lleol) gan Huw Roberts, Bethel gyda Jeff.

Enillwyd Cwpan Cwmni Tithebarn i'r rhai dros 50 oed (lleol) gan John Closs, Llanberis gyda Dot.

Enillwyr y raffl oedd £100: Carys Hughes, Llanberis; £50: G Dawson, Waunfawr; £25: G Jones, Llanrug; Addurn: Gwil Lôn Bost; Rwm: A W Evans, Llanberis; Hwyaden: Doreen, Gwesty Fictoria; Chwisgi: Arwel Euros, Y Felinheli; Tocyn Trin Gwallt: S Wood, Cwmyglo; Gin: Jenny Lucas, d/o Nant Peris; Gwin: J Owen, Mynydd Llandegai; Gwin: H Jones, Canolfan yr Heddlu; Siocled: Morwenna Thomas, ATL Bethesda.

Hoffai'r Pwyllgor ddatgan eu gwerthfawrogiad i'r ardalwyr am eu cefnogaeth.

Barddoniaeth plant Safon 1 a 2 Eisteddfod Bentref Penisarwaun. Dymar rhai ddaeth i'r brig am ysgrifennu am "rywbeth blasus".

Biffbyrger

Oglau nionod
o'r gegin ddaw,
Biff byrger neis
ddaw i'm llaw,
Mam yn gweiddi
"Dewch at y bwrdd".
Toltti sôs coch
Ar y byn,
Llyncu'r cwbl,
M - m - m - m.

Sian Lewis - Cydradd 3ydd

YMRYSON CWN DEFAID NANT PERIS



Pwyllgor, cefnogwyr a chystadleuwyr brwd y Nant.



Enillwyr gyda'u gwobrau.

RHODDION

£5: Clwb Ffermwyr Ieuainc, Caernarfon; Mr a Mrs Abram Jones, Foel Gron, Dinorwig; Mrs Mamie Parry, Capel Coch Road, Llanberis; Sandra Jones, Graianfryn, Waunfawr.

£2: Mr a Mrs Elfed Roberts, Dwyros, Waunfawr; Gwilym Davies, 10 Bro Elidir, Dinorwig; Mrs Martha, Maes Padarn,

Llanberis; Mrs Nellie Hughes, 4 Gwyrfa Terrace, Deiniolen; Mr a Mrs A Lewis, 36 Rhydfadog, Deiniolen; Beverley Thomas, 35 Rhydfadog, Deiniolen; Bryn a Diane Jones, Deiniolen; Alun a Glenys Roberts, 13 Maes Gwylfa, Deiniolen.

£1: Brian Cashman, 58 Pentre Helen, Deiniolen; Beryl Owen, Maes Padarn, Llanberis.

W.J. GRIFFITH

PLYMAR A GOSODWR
GWRES CANOLOG
PANT TIRION, LLANRUG
Ffôn: Caernarfon 673248

Gosodwyr
Nwy
Cofrestedig
Corgi



Aelod o'r
Association of
Plumbing and
Mechanical
Services
Contractors

Dim un dasg rhy fychan
Dim un dasg rhy fawr

CARPEDI GLÂN!

Mynnwch driniaeth

STIMVAK

gyda'r offer mwyaf
modern, diweddaraf, sydd
ar gael. Am fanylion
cysylltwch â

TEGID

PRITCHARD

CANOLFAN CARPEDI

WAUNFAWR 291

Hefyd ail-osod carpedi

W.H. JONES

TRYDANWR

Green Bank
Stryd Fawr
LLANBERIS

FFÔN:
LLANBERIS 871470

Contractau
Weirio Tai

Cawodydd Trydan
ac ati

Dysgwch yrru'r car gydag

Y.Y.O.

YSGOL YRRU
OFALUS

- * Gwasanaeth 7 diwrnod
- * O ddrws i ddrws
- * Control Deuol



PRITCHARD

43 Glanffynnon

LLANRUG

CAERNARFON 5112

Cymeradwyr gan yr Adran
Drafnidiaeth

ECO'R IFANC

Eco'r Ifanc, Pant Bryn Gwyn,
Tan-y-Coed, Llanrug.

LLIWIWCH Y LLUN



**OES GANDDO CHI FWY O JÔCS DA?
DOWCH 'TA – ANFONWCH NHW I'R
GORNEL ERBYN Y RHIFYN NESAF!!**

ECO'R IFANC

Wnaethoch chi fwynhau cerddi plant Safon 3, Ysgol Gynradd Llanrug y mis diwetha? Roedden nhw wedi bod am drip i'r Pili Palas.

Ydych chi wedi bod ar drip ysgol yn ddiweddar? neu ydych chi am gael cyfle i fynd i rhywle diddorol? – Cofiwch buasem wrth ein bodd yn clywed yr hanes. Beth am rannu eich profiad hefo ni?

CORNEL JÔCS

Plentyn: Mam, ddoi di i chwarae efo ni? Rydan ni wedi dyfeisio gêm newydd. Eliffantod mewn syrcaes ydan ni.

Mam: A beth ydw i'n gorfod 'i wneud?

Plentyn: Ti yw'r gofalwr sy'n ein bwydo ni?

Mrs Jones: Am faint ydych chi'n cysgu ar fore dydd Sul?

Mrs Evans: Wel, mae'n dibynnu

Mrs Jones: Dibynnu ar beth?

Mrs Evans: Ar hyd y bregeth!

Ha Ha! Ho Ho!!

Siân: Mi freuddwydiais i neithiwr am Jabas. Roeddwn i yn ei freichiau ac mi roddodd glamp o sws i mi.

Gwyn: Jiw, jiw! Beth ddigwyddodd wedyn?

Siân: Mi ddeffroais i – ond dwy'n bwriadu mynd i'r gwely'n gynnar heno!

Huw: Beth yw'r dyddiad heddiw?

Deio: Dwn i ddim. Pam nad edrychi di ar y papur newydd sydd yn dy boced di?

Huw: 'Sdim pwynt – papur ddoe ydy o!

Twm Sion Cati: Eich arian neu eich bywyd?

Teithiwr: Ydych chi'n derbyn American Express?

**Ha ha ha!
O – na!!**

Mei: Beth ydych chi'n ei roi i eliffant?

Sion: Digon o le!

Marc gen i chwaer sy mor fawr, fe'i ganed hi ar Fehefin y chweched, seithfed, yr wythfed a'r nawfed!

Rhys: Mae fy nghariad i'n un o dripledi

Gareth: Sut wyt ti'n llwyddo i ddweud y gwahaniaeth rhyngddyn nhw?

Rhys: Wel, mae gan y ddau arall locsyn!

**Ha ha ha!!
Hi hi hi!**

Twm,: Dwi'n 'i chael hi'n anodd i wneud ffrindiau.

Dyn: Wyt ti?

Twm: O, Cau dy geg fawr – y twmffat!

Sut y gwyddoch chi fod 'na eliffant o dan eich gwely?

Mae'ch trwyn yn cyffwrdd y nen-fwd!


Pam roddodd y seiciatrydd ei wraig o dan y gwely?

Am 'i fod o'n meddwl ei bod hi'n poti!


ENWAU MERCHED – Sawl enw sydd yma?




EWCH O
DDOT I DDOT



GWELAIS LONG AR Y GLAS LI! (Lliwiwch y llun)



CWBLHEWCH YR HANNER COLL



CLWB FFERMWYR IEUAINC CAERNARFON

Ar nos Fawrth, 2il o Fai treuliwyd y noson yn trefnu pwy oedd i gymeryd rhan yng ngweithgareddau Chwaraeon y Sir, nofio a'r Rali. Wedi gwneud hyn cafodd pawb gyfle i gael sgwrs dros baned o de.

Ar ddydd Sadwrn, Mai 6ed cynhaliwyd diwrnod chwaraeon i'r Sir yng Nghaernarfon. Cymerodd y Clwb ran yn y rhan fwyaf o'r gweithgareddau oedd wedi eu trefnu. Roedd rhain yn cynnwys rownderi i dîm o dair merch a phedwar bachgen; pêl rwyd a hoci ar gyfer y merched a phêl droed ar gyfer y bechgyn. Ar ddiwedd y diwrnod roedd pawb wedi mwynhau eu hunain er eu bod wedi blino.

Nos Fawrth 16 o Fai treuliwyd y noson yn gwneud yn siwr bod pawb yn gwybod yn union beth oeddynt i'w wneud yn y Rali, ac fel arfer, os oedd unrhyw broblem roedd Ellen a Myfanwy yno i roi help llaw.

Nos Iau, Mai 18 cynhaliwyd cystadleuaeth nofio i'r Ffermwyr Ieuainc yn y Ganolfan Hamdden yng Nghaernarfon. I gynrychioli'r Clwb aeth Gail a Robin Warrington, Sioned Parry a Gwen ac Aled Jones. Bu'r Clwb yn llwyddiannus dros ben yn y gystadleuaeth yma a chafwyd chwe gwobr gyntaf, un ail ac un pedwerydd.

Ar nos Lun, Mai 22 roedd cystadleuaeth Goginio dan 26 yn cael ei chynnal yng Ngholeg Glynllifon. Roedd angen tîm o ddau aelod (bachgen a merch) i ddarparu swper i ddau gan ddefnyddio oen Cymreig i'r prif gwrs a llefrith neu gynnyrch llefrith yn y pwddin. Nia Wyn Jones a Tudur Parry aeth i gynrychioli'r clwb a daethant yn drydydd.

Ar ddydd Sadwrn 27 o Fai, cyrhaeddodd diwrnod y Rali, a gynhaliwyd eleni yn Tai Isa ym Mhentir. Gweithiodd pawb yn galed trwy'r dydd yn cymeryd rhan yn y gwahanol gystadleuaethau. Dyma rai o'r canlyniadau: 2il am Gywaith Coginio dan 31: Elen Hughes, Helen Jones, Gwen Jones; 3ydd Coginio



dan 21: Sioned Parry. Cydradd 2il Cystadleuaeth Cymeriad Arswyd: Myfanwy Jones, Gwen Jones a Nia Jones. 1af am Farnu Biff: Helen Jones a Rachel Griffiths; 3ydd Nicola Griffiths.

Fel y gwelwch o'r canlyniadau bu'r clwb yn hynod o llwyddiannus. Ar ddiwedd y Rali roedd Clwb Caernarfon yn y pumed safle ac am y tro cyntaf er rhai blynyddoedd derbyniodd y clwb Darian Barhaol y Diweddar G G Bowness, i'r Clwb gyda'r mwyaf o farciau am Farnu Biff a Tharian Goffa Arwyn Evans, Garth Hebog i'r Clwb sy'n ennill y mwyaf o farciau yng nghystadlaethau chwaraeon y bechgyn. Gyda'r nos cafwyd dawns y Rali, roedd hyn yn gyfle i bawb ymlacio wedi diwrnod o waith caled a llwyddiannus.

Ar nos Fawrth, Mai 30 cynhaliwyd cyfarfod blynyddol y Clwb. Roedd y rhan fwyaf o'r aelodau yn bresennol, hefyd roedd Meinir Roberts, Trefnydd y Sir ac Emyr Lloyd Williams, Cadeirydd y Ffederasiwn yno. Yna cafwyd gair bach gan Gwyneth Jones, llywydd y Clwb yn ein canmol ar ein gwaith caled. Etholwyd swyddogion newydd fel a ganlyn:

Llywydd: Goronwy Jones;
Arweinydd: Myfanwy Jones;
Cadeirydd: Eurwyn Jones;
Is-gadeirydd: Aled Jones;
Ysgrifennydd Rhaglen: Nicola Griffith;
Ysgrifennydd Cystadleuthau: Helen Jones;
Trysorydd: Gwen Jones;
Ysgrifennydd y Wasg: Sioned Parry a Nia Lyn Jones.

Cyflwynwyd Cwpan Dinas i Ellen Hughes. Cyflwynir y cwpan yma yn flynyddol i'r aelod mwyaf gweithgar yn y clwb.

Ar y diwedd fel hyn hoffwn i ar ran y Clwb ddiolch i Myfanwy Jones ac Ellen Hughes am eu

gwaith caled a'u cefnogaeth drwy'r flwydyn.

Bydd croeso i unrhyw un sydd â diddordeb mewn ymuno â Chlwb Caernarfon ddod mis Medi. Mae'r Clwb yn cael ei gynnal bob nos Fawrth am 8 o'r gloch yn Neuadd Bethel.

Diolchwn i aelodau'r Clwb am eu rhodd ariannol tuag at gostau'r 'Eco' ac am eu parodrwydd i gynorthwyo gyda'r plygu. Dymunwn dymor llwyddiannus arall iddynt yn ystod y flwyddyn sydd i ddod.

Golygyddion

PYSGOTA

Adroddiad H P Hughes

Yn hwyr nos Fawrth Mai 30 cefais alwad fod rhywbeth o'i le ar yr afon o Bont Crawia i lawr, a phan gyrhaeddais yno gyda rhai aelodau eraill gwelais olygfa nad wyf eisiau ei gweld fyth eto, sef pysgod: sewin, brithyll brown a chywion eogiaid wedi marw, a lliw mwyaf annaturiol ar y dŵr.

Cerddasom i lawr yr afon am tua milltir at Lyn Glanrafon, a'r un oedd yr olygfa. Roedd arogl hefyd ar wyneb y dŵr yn cadarnhau ein amheuan fod 'cement' neu rhywbeth cyffelyb wedi ei arllwys i'r afon.

Yn ystod y ddau ddiwrnod yn dilyn fe dynnwyd bron i fil o bysgod yn farw o'r dŵr ac ar ôl gwneud arbrofion mewn man cyffelyb ar yr afon, amcangyfrifodd swyddogion y Bwrdd Dŵr fod o amgylch 20,000 o bysgod, a ddeorwyd yng Ngwanwyn '89 i rai blwydd oed, hefyd wedi marw ond oherwydd y nifer nid oedd yn bosib eu casglu i gyd.

Oherwydd hyn gobeithio fod pawb yn sylweddoli fod 'sgota brithyll ar un o fannau mwyaf poblogaidd yr afon wedi ei ddifetha am o leiaf 4 blynedd. Gobeithio efallai gellir lleihau y boen, ond mae y mater erbyn hyn yn nwylo cyfreithwyr y

Gymdeithas.

Mae y rhwydi proffesiynol wedi dechrau tynnu ar y Fennai ac yn ôl yr hyn a glywais maent yn cael helpa go dda. Wrth gwrs, disgwyliwyd am hyn gan fod yr afonydd mor isel a'r cog a'r sewin yn symud yn ôl ac ymlaen gyda'r llanw. Yn ôl pob golwg dim ond rhyw ddyrnaid o sewin sydd wedi dod i'r rhwyd, i gyd o gyffiniau Llyn Du a Llyn Crwn.

Er fod y pysgota afon bron yn amhosib oherwydd y sychdŵr, mae gwaith arall wedi gallu mynd ymlaen, sef atgyweirio ac adnewyddu rhai o'r pyllau. Gwelir criw Llyn Harri Parri wedi codi ato, a hefyd ar y Llyfni, mae'r pyllau glan môr wedi eu hail wneud i gyd. Mae'n werth cael sbectol yno, a gobeithio yn wir y bydd 'sgota ardderchog i gael yno nawr gyda'r bluen gan fod y cynrhon wedi eu gwahardd yno.



Pedwarawd o Seindorf Deiniolen a enillodd yr ail wobwr yng nghystadleuaeth ensemble 12-15 oed yn Eisteddfod yr Urdd, Cwm Gwendraeth.

Emyr Jones

PLYMAR A
PHEIRIANNYDD
GWRESOGI

Cynnal Boileri nwy,
olew, tanwydd solat
a thredio peipiau

44 Glanffynnon
LLANRUG
Caernarfon 3513



Am wasanaeth fframio
cyflawn - LLUNIAU
TYSTYSGRIFAU,
TAPESTRI:-

ELWYN PRITCHARD

Fframwr Lluniau/
Telynau Gwynedd
Parc Padarn
LLANBERIS

870922 neu Bangor 351427
cesglir a danfonir i'ch
cartref os dymunwch

WELDIO OFFER FFERM
A PHEIRIANNAU
DIWYDIANNOL

GWNEUD GIATIAU,
FFENSYS AC ATI
AR GYFER Y CARTREF

ATGYWEIRIO TAI
GWAIR

E. PUGH

WELDING &
FABRICATING
32 GLANFFYNNON
LLANRUG

Ffôn: Caernarfon 5394

**Wavell
Roberts**
CIGYDD

LONDON HOUSE
LLANRUG

Ffôn: Caernarfon 3574

PEN CIGYDD Y FRO

Yr ŵyn lleol mwyaf blasus
Selsig cartref, cigoedd parod
i'w bwyta

Archebion ar gyfer y rhewgist
MYNNWCH Y GORAU
DEWCH ATOM NI!

LLANBERIS

Gohebydd: Iola Sellers, 13 Dôl Elidir (831043)

SEFYDLIAD Y MERCHED:

Cynhaliwyd cyfarfod o'r Sefydliad yn y Ganolfan nos Iau, Mai 25. Darllenwyd y cofnodion a'u harwyddo a darllenwyd y llythyr misol. Cydymdeimlwyd â Mrs Netta Jones yn ei phrofedigaeth o golli ei brawd ym Mae Colwyn, hefyd llongyfarchwyd Mrs Jones ar ei phen-blwydd yn ddiweddar.

Ein gwraig wadd oedd Mrs Gwyneth Roberts, Becws Eryri yn beirniadu cystadleuaeth goginio gan yr aelodau. Enillwyd y Victoria Sandwich: Cyd 1af Mrs Jennie Lloyd Jones a Mrs Helen Morris; Sgons: Mrs Mary Jackson.

I ddiweddu y noson cafwyd cwis wedi ei drefnu gan Mrs Hannah Jones. Diolchwyd i Mrs Roberts ac i'r gwestwagedd gan Mrs Eluned Mai Jones a Mrs Katie Williams. Y gwestwagedd oedd Mrs A M Evans a Mrs Megan Hughes. Enillwyd y raffl gan Mrs Glenys Jones.

DIRPRWY BRIFATHRO:

Llongyfarchiadau i Bryn Jones, 60 Dol Elidir ar ei benodi yn Ddirprwy Brifathro yn Ysgol y Gelli, Caernarfon.

LLONGYFARCHIADAU i Wendy a Robin Jones, 94 Maes Padarn ar enedigaeth eu mab bach cyntaf, Robin ar y 23ain o Fai ac i Ada ac Edfryn ar fod yn nain a thaid am y tro cyntaf, hefyd i Margaret ac Irfon ar fod yn nain a thaid unwaith eto.

DIOLCH: Dymuna Wendy a Robin Jones ddiolch o galon i'w teulu a'u ffrindiau am yr holl gardiau a'r anrhegion a dderbyniwyd ar enedigaeth eu mab bach Robin ar y 23ain o Fai.

DIOLCH: Dymuna Bob Hughes (gynt o Stryd Siarlot) ddiolch yn gynnes iawn am bob arwydd o gydymdeimlad a ddangoswyd iddo yn ddiweddar pan gollodd ei frawd Humphrey o Glwt y Bont.

Diolch i'r teulu, cymdogion a ffrindiau am y cardiau lu, y galwadau ffôn, ac i'r rhai ddaeth draw i Fangor i'w weld. Roedd pob arwydd o gydymdeimlad yn gysur ar adeg mor drist.

CYDYMDEIMLWN â:

— Mr Ron Thomas a'r teulu yn eu profedigaeth o golli ei wraig, Janet;

— Mr Glyn Roberts, Bethesda Street a'r teulu yn eu profedigaeth o golli ei fam;

— Mr Goronwy Lewis, Stryd Ceunant a'r teulu yn eu profedigaeth o golli ei fam;

— Teulu Yvonne Maxwell Hughes, Avon Terrace yn eu profedigaeth o golli mam, merch, chwaer a nain.; Mr Bob Hughes a'r teulu yn eu profedigaeth o golli brawd.

GWELLHAD BUAN: Dymunwn adferiad buan i'r rhai canlynol:

Mr John Rhys Owen, 50 Dol Elidir; Mrs Joyce Jones, 27 Dol Elidir; Mr Hugh Griffiths, Llain Wen; Mrs Betty Ellis, Llain Wen; Mr Bob Jones (gynt o Stryd Newton) nawr yn Plas Pen Gwaith; Mrs Jane Roberts, Stryd Ceunant; Miss Marian Davies, York Terrace.

PRIODAS ARIAN:

Llongyfarchiadau i Margaret a Gwynfor Jones, 51 Dol Elidir ar achlysur eu Priodas Arian.

LLONGYFARCHIADAU i Nia Roberts, Becws Eryri ar achlysur ei phen-blwydd yn 18 oed.

PRIODI: Llongyfarchiadau i Menai a Neil ar achlysur eu priodas ar Fehefin 10fed.

DIOLCH: Dymuna Melanie Sellars ddiolch i'w theulu, ffrindiau a'i chymdogion am y llu cardiau, anrhegion a dymuniadau gorau a dderbyniodd ar ei hymadawiad i ymuno â'r fyddin. Diolch hefyd i'w chyd-weithwyr yn Swyddfa'r WDA ym Mangor.

FIDEO O'R CARNIFAL: Mi fydd copïau o Fideo Carnifal Llanberis a Ras yr Wyddfa ar werth cyn bo hir. Am fanylion pellach ffoniwch Llanberis 872209.

YSGOL DOLBADARN

CROESO: Wedi ymddeoliad Mrs Lovell, daeth Mrs Williams yn gogyddes yng nghegin yr ysgol. Bu yn gweithio am flynyddoedd yng nghegin Ysgol Gynradd Bethel. Croesawn Mrs Williams a gobeithio y bydd yn hapus yn ein mysg.

FFARWELIO wnaethom â Leah pan fudodd gyda'i mam a'i thad, Mr a Mrs Vernon Pitts, a Dominic i Sydney, Awstralia. Deallwn eu bod yn darllen yr Eco yno, ac anfonwn ein cofion a'n dymuniadau da iddynt.

YMWELIADAU: Bu pob dosbarth ar ymweliadau i sawl lle i astudio'r amgylchfyd. Diolch i bawb yn Amgueddfa'r Chwael am eu cydweithrediad a'u hamser. Cafodd y plant fudd a boddhad o'r ymweliadau.

COFION: Anfonwn ein cofion at Miss Marion Davies a Mrs Sue Brookes, y ddwy adref o'r ysgol o achos anhwylder. Dymunwn adferiad iechyd buan iddynt gan obeithio eu gweld yn ein mysg yn reit fuan. Diolch i Mrs Eluned Davies ac i Mrs Nant Roberts am ddod a llenwi'r bylchau. Gobeithio iddynt fod yn hapus yn ein plith.

AR Y TELEDU: Cymerodd rhai o blant adran y babanod ran yn y rhaglen deledu "Playbus" tra i rai o'r adran Iau gymryd rhan mewn rhaglen Fathemateg "Rhifodiri" a ddarlledir yn ystod tymor yr Hydref.

GWERTHU LLYFRAU: Diolch yn fawr am eich cefnogaeth er llwyddiant y Siop Lyfrau.

CRONFA'R YSGOL: Trwy ymdrechion "Ffrindiau'r Ysgol" chwyddwyd cronfa'r ysgol gryn dipyn. Diolch i'r ffrindiau am eu dyfalbarhad a'u llafur diflino. Cafwyd sawl gweithred codi arian, yn eu mysg 'Noson Goluro' yng nghwmni Sandra o Ynys Môn. Rydym yn dal i gasglu hen bapurau newydd a chylchgronnau. Rhowch nhw i blentyn sy'n byw gyfagos â chwi. Y gweithgaredd nesaf fydd y Ras Hwyaidd dan nawdd y Frigâd Dân wythnos y carnifal. £1 yw pris hwyaden os am gymeryd rhan yn y gweithgaredd (Anfonwch i'r ysgol). Yr Ysgol sy'n gyfrifol am banded a lluniaeth yng nghae'r Carnifal eleni. Dowch i'n cefnogi os gwelwch yn dda.

FFARWELIO: Dyma'r tymor y byddwn yn ffarwelio hefyd. Ffarwelio â Nia Williams sydd wedi bod yn cynorthwyo yn y Dosbarth Derbyn. Diolch yn fawr Nia am bob cydweithrediad a dymuniadau gorau i'r dyfodol. Ffarwelio wnawn hefyd â phlant Safon 4, gan ddymuno pob llwyddiant iddynt yn yr Ysgol

Uwchradd.

LLONGYFARCHIADAU i Mr Cynrig Hughes, y Prifathro, ar ei benodiad i swydd darithydd yn y Coleg Normal. Bydd yn cychwyn yn ei swydd newydd fis Medi. Dymunwn bob hapusrwydd a llwyddiant iddo gan obeithio y bydd mor hapus yno ac y mae wedi bod yn ein mysg yn Ysgol Dolbadarn. Diolch iddo am ei arweiniad, ei gefnogaeth a'i waith diflino. Dymuniadau gorau i'r teulu bach i gyd.

Janet Thomas

Yn dawel ar Fehefin 3ydd yn Ysbyty Gwynedd, bu farw Janet Thomas o Llys Menai, Afon Terrace, yn 58 mlwydd oed. Priod annwyl Ronald, chwaer Betty, Sarah, Gwyneth a John. Bu'r angladd dydd Mercher, Mehefin 7fed gyda gwasanaeth preifat yn y ty ac yn dilyn ym mynwent Nant Peris. Gwasanaethwyd gan Y Parchedig John Pritchard.

Y cludwyr oedd Eric Hughes, William Roberts, Brynli Roberts a Ritchie Pritchard.

Galarwyr: Ronald G Thomas (priod); Mr a Mrs Eric Hughes, Mr a Mrs William Roberts (chwiorydd a brodyr yng nghyfraith); Mrs Gwyneth Roberts (chwaer); Mr John R Jones (brawd); Miss Carys Hughes (nith); Miss Elwen Hughes (nith); Mr a Mrs Wyn Williams, Mr a Mrs Clifford Thomas, Mr a Mrs Cledwyn Thomas (chwiorydd a brodyr yng nghyfraith); Mr Deiniol Wyn Williams (nai); Mr John Gwilym Thomas (nai); Mr Gerallt Wyn Thomas (nai); Mr a Mrs Ritchie Pritchard; Mr a Mrs Brynli Roberts; Miss Nancy Williams; Mr a Mrs Hugh Williams; Mr John Parry; Mr Owen Jones; Mr Alwyn Thomas (cymdogion a chyfeillion).

Yn absennol oherwydd amgylchiadau roedd Mr Tomos Thomas, Miss B Mullins, Mrs Olwen Roberts a Mrs G Williams.

Darparywd lluniaeth yng Ngwesty Gwynedd, Llanberis. Blodau: Ronald; Betty, Eric, Carys ac Elwen; Gwyneth a John; Sarah a Wil; Cathrine, Wyn a Deiniol; Clifford, Elizabeth, John a Gerallt; Cledwyn, Helen, Tony, Diane a Barry; Brenda, Brynli, Ian, Parhad ar dudalen 19

GWYNETH ROBERTS

84 Stryd Fawr, Llanberis

Ffôn: 870491

PAENT, PAPUR WAL
TEGANAU, CARDIAU
MELYSION
ANRHEGION



Bara Ffres
Teisennau
Priodas, Bedydd
Pen-blwydd ac ati,
Peis, Rholiau Sosej,
Pasteiod, Teisennau Hufen,
Teisennau Plât, Torth Gyrains etc.

BECWS ERYRI

Stryd Fawr, Llanberis 870491

Bistro

43-45 STRYD

FAWR

LLANBERIS

Ffôn: 871781



CURIAID CALON CYMRU

hefyd yn ystod y dydd

Bistro Bach

Y MAES

CAERNARFON

Ffôn: 3075



CURIAID CALON CYMRU

Agor Ffiniau'r Gorffennol

Gan Mary Lloyd Williams, B.E.M.

Englynion Dewi Havesp

Mae'r Eisteddfod Genedlaethol yn dwad yn nes a naturiol ydyw i ni fynd i fyd y beirdd am rhyw dro neu ddau.

Cofiaf i mi ofyn flynyddau'n ôl bellach - pwy oedd awdur y ddwy linell:

"Ha fe alwyd nefolion
I holli aur yn wallt i hon."

Atebodd dau, a dyma i chwi gopi o'u llythyrau. Mae'r hen air ddigon gwir "Cadw-mi-gei".

Dolwyddelan

Daeth y llythyr cyntaf oddi wrth Mrs M. Parry, 12 Castle Terrace, Dolwyddelan, Gwynedd. Yr oeddwn yn ddiolchgar iawn amdano. Dyma eiriau Mrs Parry:

"Darllenais yn yr Herald eich bod yn holi pwy yw awdur dwy linell o farddoniaeth. Da gennyf ddweud wrthyfch mai Dewi Havesp ydyw'r awdur. Fel hyn y mae'r englyn yn darllen:"

Fy Nghariad

Grudd fad is llygad glas llon - a dwy ael

Is dellt crych - felynyon:

Ha! fe alwyd nefolion

I holli aur yn wallt i hon.

Dewi Havesp

Aiff Mrs Parry ymlaen fel hyn yn ei llythyr:

"Byddai fy niweddar briod, James Parry, yn hoff iawn o englynion a gallai adrodd ugeiniau ohonynt ar ei gof. Byddai wrth ei fodd yn darllen erthyglau a barddoniaeth eich diweddar dad, Glan Rhyddallt. Yr ydym wedi cadw llawer darn o'i waith o'r Herald. Cofiaf iddo sgwennu i'ch tad flynyddoedd yn ôl ac anfon llun iddo o garreg yn y mynydd lle'r arferai John Jones. Talysarn fynd i fyfyrto a gweddio a phregethu i'r defaid a'r wyn.

'Rwy'n anfon englyn a sgrifennodd fy hen athro Ysgol Sul yn y Beibl a gefais gan y dosbarth yn anrheg priodas."

Present uwch law pob disgwyl - yw Beibl

I bawb a'i darllo:

Y glân adnodau di-glo,

A'r hanes geir ohono

Dewi o'r Bryn

Yr oedd y diweddar Barch Owen Lloyd, Brynrodyn, yn gefnder i Mrs Parry.

Pwllheli

Daeth yr ail lythyr oddi wrth Mr R W Jones, Neuadd Wen, Yr Ala, Pwllheli. Y mae Mr Jones yn dad i Gwilym Tudur, Siop y Pethe, Aberystwyth ac yn fardd gwyd. Gwelsoch lawer o'i englynion a'i farddoniaeth yn y papurau o dro i dro.

Meddai R W Jones: "Gwelaf eich bod yn gofyn pwy yw awdur y ddwy linell arbennig am yr eneth gwallt melyn, wel, Dewi Havesp yw'r awdur.

Yr oedd Dewi Havesp yn gyn-ganeddwr rhagorol ac, ar eich cais, ceisiaf roddi ychydig o hanes y gwr rhyfedd, amryddawn hwnnw - un yr oedd cynganeddu, yn ôl yr hanes, mor naturiol iddo ag anadlu. Deallwch fy mod yn fras ddyfynnu o gyfrol ragorol Dewi Havesp, sef 'Oriau'r Awen'.

Teiliwr ydoedd wrth ei alwedigaeth. Prentisiwyd ef i'r gwaith hwnnw pan nad oedd ond hogyn ifanc iawn, gydag un Mr Ellis Roberts, Llanfor. Y pryd hwnnw fel y gwyddis, byddai'n arferiad gan deilwriaid fynd o gwmpas ffermdai'r ardaloedd i dorri a phwytho. Pan oedd ar un o'r teithiau hynny yn Llechwedd, Cilan, Llandrillo, y cyfarfu â Miriam, y ferch hynaf. Aeth yn fargen a phriodi yn 1855. Bu iddynt bedwar o blant, tri mab ac un ferch.

Bu farw Dewi Havesp Awst 29ain, 1884 yn 53 mlwydd oed. Gorwedd ei weddillion yn myn-

went Eglwys y Plwy Llandderfel. Y mae'r englyn yma ar ei feddfaen:

Gan natur, pwy gawn eto - ail Dewi?

Clod awen boed iddo:

Ni ddaw rhodd well i'n boddio

O law neb na'i englyn o.

Pwy? (M.L.I.W.)

Prin iawn fu ei gyfleusterau ond manteisiodd ar bob cyfle i hogi ei ddawn. Nid oedd ond degwm o'i waith ar gael pan fu farw, gan mai eithriad fyddai iddo roi dim o'i waith ar bapur. Syndod fod yna gynifer â 90 o'i ganeuon a'i englynion yn ei lyfr "Oriau'r Awen" wedi'r cwbl.

Y mae'r gyfres englynion "Cyffes y Meddwyn" yn wych.

Dyna un englyn o'r gyfres

Hen wr du wyf yn nhy'r diafol - yn warth,

Ac yn wir annuwiol:

Iôr fy Nuw, O! tro fi'n ôl,

Gwna i Ddewi fyw'n dduwiol."

Meddai Mr Jones ymhellach:

"Fe'm temtir i ddyfynu englyn neu ddau arall o'r gyfrol gan Dewi Havesp:

Gŵr Union

Er cof am David David (Eos Derfel), Llandderfel

Roedd mwy na'i lond o uniondeb - byw wnaeth

Heb wneud anghywirdeb,
Na thaenu, dan rith wyneb,
Anghyfiawn air yng nghefn neb.

Y Tarw

Ar ddôl las beth sy' gasach - drwy'r byd?

A rui bas oerach?

Yn hagr rygnu a grwnach, -

Llew o beth yw tad llo bach.

Afon Angau

Afon fawr a ofnaf fi - ydyw hon,

A rhaid im ei chroesi:

Ond trwy fy lôn mentraf hi

A byw fyddaf heb foddi."

Diolch yn fawr iawn i Mrs Parry a Mr R W Jones.

CHWILOTA

Yn rhifyn Mai o'r Eco roedd darllenwr yn holi am y darn barddoniaeth a adroddid erstalwm - "Y Bachgen Du".

Ai am fy mod yn negro

Y caf y fflangell drom,

Gan deimlo'i phwys a gwres y dydd

Ar fynwes deneu lom.

Mae plant fy Masse'n chwarae(u)

Mewn mwyniant o bob bri,

Tra mae ôl llafur caled

Ar fy nwylo duon i.

Hwy roent eu pennau i orffwys

Ar dyner esmwyth blu,

Tra nad oes ond y gwlanog wallt

Dan ben y bachgen du.

A ydyw Duw yn foddlon

I ddynion anwar lu,

Gael rhoddi pwys y fflangell drom

Ar gefn y bachgen du.

Ym mis Ebrill eleni, dathlodd

Robert Owen, Cae Corniog Bach,

Penisarwaun ei ben-blwydd yn 90

oed.

Fe'i ganed yn Tan y Bryn, Groeslon, Y Waunfawr yn un o wyth o blant Hugh a Jane Owen.

Pan oedd Robert Owen yn dair oed symudodd y teulu i fyw i'r Garnedd, Rhosgadfan, ac yno y buont am ddeng mlynedd cyn ymfudo i hen gartref ei dad, Pen y Gwaith, Clegir.

Cofiai ddysgu'r darn 'Y Bachgen Du' pan yn saith oed yn nosbarth 'Miss Annie', yn ysgol Rhosgadfan.

Mae'n dal i'w gofio heddiw yn 90 oed.

DRAENOG



Mae'n dda nad eliffantod sy'n hedfan yng nghyffiniau Aberystwyth! Roedd beiddgarwch gwylan yn fwy na digon i un yn ei siwt orau pan oedd yn ymlwybro ar hyd y prom tua'r eglwys lle'r oedd i fod yn bresennol, ymhen chwarter awr wedi'r anffawd, ym mhriodas ei nai. Rwy'n siwr fod y tylluanod yn cydymdeimlo'n fawr ag o.

BRYN

(B & K Williams)

Hen Ysgol
Glanmoelyn

LLANRUG

Ffôn 77482 (dydd)

870793 (nos)

Gwneuthurwyr Ffenestri,
Drysau, Grisiau neu
unrhyw fath o gynnyrch
coed. Y coed meddal wedi
derbyn triniaeth arbennig i
wneud iddynt bara.

E.W.Pritchard CENTRAL GARAGE Llanberis

Ffôn: 870202 a 870272

TREFNWYR ANGLADDAU
CEIR AR GYFER PRIODASAU
GWASANAETH TACSI

GERAINT OWEN

Gosodwr
carpedi a phob
math o lorau

Cil-y-Mynydd
WAUNFAWR

Ffôn:
Waunfawr 552

WAUNFAWR

Gohebydd: Mrs Nan Roberts, Pantafon, Waunfawr



Bron â Methu - a ddaeth yn ail yng nghystadlaethau grwp pop dan 25 yng Nghwm Gwendraeth.

LLONGYFARCHIADAU i Meira Turner, Colfryn ar fod yn llwyddiannus yng nghystadlaethau adrodd Eisteddfodau Llanuwchllyn a Dolgellau

- i Kaily Jones, Cynefin ar lwyddo yn yr arholiad Clarinet, Gradd 4, ac i Kirsty ei chwaer ar lwyddo yn yr arholiad Ffliwt, Gradd 3;

- i Nan Wyn, Tan y Fron ar ddod yn ail yn nghystadlaethau Siarad Cyhoeddus dan 25 oed yn Eisteddfod yr Urdd. Fe wyddom am ei gallu i ddiddanu a dal ei chynulleidfa;

- i'r grwp pop 'Bron a Methu' am ddod yn ail mewn dwy gystadlaethau yn Eisteddfod yr Urdd. Rwy'n siwr ein bod yn falch ohonynt wedi gwneud mor dda yn y gystadlaethau o dan 25 oed, a'r hynaf ohonynt ddim ond 15 oed a'r ieuengaf yn dair ar ddeg.

DECHRAU GWEITHIO: Mae llawer o bobl ifanc y pentref wedi gadael yr ysgol ac yn dilyn gwa-hanol alwedigaethau - dymunwn yn gorau iddynt yn eu swyddi newydd.

ADREF O'R YSBYTY: Croeso adref o'r ysbty i Mr R Roberts, 9 Bryn Golau; Mrs Annie Taylor, Baladeulyn, Dol Erddi; Sian Rowlands, Ty'n Coed. Gobeithio y byddwch yn dal i wella.

CAEL DAMWAIN a thorri braich fu hanes Eilir Jones, Rhandir Mwyn a Mrs Owen, Tref Eilian. Gobeithio y cânt dynnu'r plaster yn fuan iawn.

CYDYMDEIMLWN yn fawr â Mrs Laura Pierce, Ty'n Twll ar golli ei brawd yn ddiweddar.

Hefyd â Mr Evan Hughes, 3 Bryn Golau ar golli ei frawd, ac nid ei chwaer fel y nodwyd yn rhifyn olaf yr Eco.

APÊL EISTEDDFOD YR URDD DYFFRYN NANTLLE AC ARFON 1990: Fe fu'r tywydd braf yma yn gymorth mawr i bawb fwynhau eu Swper Awyr Agored yng nghae'r Ganolfan nos Sadwrn, 10fed o Fehefin. Diolch i bawb a gefnogodd. Cofiwch am y daith gerdded nodedig fydd yn cychwyn am 10 o'r gloch fore Sadwrn, Gorffennaf 8, o faes parcio Bryn Eirion. Os deil y tywydd braf yma fe gawn

aros am bicnic ar ochr Allt Coed Mawr, felly dowch a brechdan a diod gyda chi. Mae Mrs Mary Vaughan Jones wedi addo dod i'n harwain. Mae'r ffurflenni noddi i'w cael yn Siop Ty Newydd a'r Post. Diolch iddynt am fod mor barod i'w rhannu.

EISTEDDFOD LLANGOLLEN A'R GENEDLAETHOL: Rwy'n siwr y bydd llawer ohonoch yn ymweld â'r ddwy Eisteddfod a dymunwn yn dda i'r rhai o'r pentref fydd yn cystadlu ynddynt.

STAD DAI NEWYDD: Dymunwn pob hapusrwydd i'r teuluoedd sydd wedi ymgartrefu ar y stad.

MERCHED Y WAWR: Cynhaliwyd cyfarfod o'r gangen yn y Ganolfan nos lau, Mai 25. Cafwyd cwis o dan ofal Mr Meirion Jones, Waunfawr. Diolchwyd iddo gan Mrs Gillian Wyn. Rhoddwyd y raffl gan Mrs Ellen Jones a'r enillydd oedd Mrs Edith Ellis. Roedd cyfarfod olaf y gangen ar Fehefin 22 pryd y cafwyd taith o amgylch Ynys Môn a swper blasus yng Nghegin y Marcwis.

GWYL GORAWL Y DDEONI-AETH: Roedd cynulleidfa dda yn yr Wyl a gynhaliwyd eleni yn Eglwys Sant Ioan, dan arweiniad Mr Gareth Hughes Jones, Caernarfon a Mrs Darwood, Llanrug wrth yr organ. Llywyddwyd y cyfarfod gan y Parch Canon Barry Thomas. Cafwyd etiamau gan Gôr (?????),

Cyfarfod Pregethu Arbennig

pryd y cyhoeddir yr Efyngyl gan
Y Parchedig W Vernon Higham, Caerdydd

Nos lau, 6ed o Orffennaf, 1989
am 7.30 o'r gloch yng Nghapel Moreia, Waunfawr
Croeso cynnes i bawb

Caernarfon a thalwyd y diolchiadau gan y Deon Gwlad. Bore Mawrth, Mehefin 20 bu Undeb y Mamau, Bodedern a'r Cylch gyda'r Parch Carol Evans yn ymweld ag eglwys Sant Ioan. Roedd y gwasanaeth yng nogfal y Parch Peter Pritchard.

MYND YMHELL O'R WAUN: Dyna fydd hanes un mor ifanc â Nan Wyn, Tan y Fron ddiwedd mis Awst. Dymunwn y gorau iddi yn ei **CRONFAR GANOLFAN:** Dyma restr o enillwyr y clwb 300 am fis Medi: £40: Gareth Jones, Glyn Ceris; £25: Alice Johnstone, Ty Gwyn; £10: Thomas Owen, 4 Dol Erddi.

DIOLCH: Dymuna Sandra Jones, Graianfryn, ddiolch yn fawr iawn i bawb a fu mor garedig tuag ati ar achlysur ei phen-blwydd yn ddeunaw oed, a hefyd ar ei dyweddïad yn ddiweddar.

SEFYDLIAD Y MERCHED: Gwibdaith ddirgel oedd arlwy'r gangen nos lau, Mehefin 1af. Treuliwyd y noson yn teithio Ynys Môn gan ddiweddu'r noson gyda chinio yng ngwesty Cegin y Marcwis yn Llanfairpwll.

Cynhelir cyfarfod mis Gorffennaf ar nos lau y 6ed. Derbyniodd Miss Sidi Roberts wahoddiad i roi sgwrs i'r aelodau ar y testun "Trem yn ôl".

LLONGYFARCHIADAU gwresog iawn i Mrs Williams, Dwyfor ar ddathlu ei phen-blwydd yn 91 oed ddiwedd mis Mehefin.

BARBACIW ANTUR WAUNFAWR

Nos Sadwrn, Gorffennaf 15 ym Mryn Pistyll am 6 o'r gloch gyda John Ogwen a Maureen Rhys

Oedolion £1.50 Plant £1.00
Tocynnau ar werth gan Gyfarwyddwyr y Cwmni, siopau lleol neu Bryn Pistyll.

Bydd Ras yr Antur yn cael ei chynnal ar Fedi 30 eleni. Os oes unrhyw fudiad â diddordeb mewn cael stondin ar y diwrnod yna cysylltwch â'r Antur.

WARD WAUNFAWR

Hoffwn ddiolch yn gynnes iawn i'r

etholwyr a bleidleisiodd ar fy rhan yn is-etholiad Cyngor Arfon ar y 1af o Fehefin.

Roedd yn gymorth mawr i dderbyn mwyafrif mor llwyddiannus i ennill y swydd o Gynghorydd Annibynnol i'r dyffryn.

Hyderaf y caf eich cefnogaeth eto i weithio yn barhaus i geisio datrys problemau y dyffryn er lles pawb yn ddiwahan.

Diolch yn gywir,
Gwilym Owen Williams
Fferm Bod Hyfryd
Waunfawr

CLWB Y BLAID: Enillwyr Mehefin: 1. Gillian Wyn, Y Frenni; 2. Duncan Brown, Gwelfor; 3. Norman Williams, Llidiart Wen.

DAMWAIN: Ar ôl damwain gorfu i Osian Elfryn, Coed Gwydryn, gael pwythau yn ei glust. Gobeithio y byddi'n well yn fuan Osian bach.

ANFONWN ein cofion at Mrs M J Griffith, gynt o 25 Tref Eilian, ond sydd ar hyn o bryd yng nghartref Bron Eryri, Llanberis, fe syrthiodd a thorri ei choes yn ddiweddar, gobeithio ei bod yn gwella.

CROESO: Ymgartrefodd Denise, Terence a'r fechan yn 9 Dol Erddi. Gobeithio y byddant yn hapus yn eu cartef newydd.

YN YR YSBYTY mae Kelly, merch fach Roy a Fiona, Bod Idris, a Mrs Bilton, Bryn Golau. Dymunwn adferiad buan iddynt.

CLWB GWYRFAL: Ar wahoddiad Miss Owilda Williams mwynhawyd bnawn hyfryd iawn yn ei chartref, Y Fronllwyd, ar Fehefin 20.

Roedd Miss Williams, gyda chymorth ffrind, sef Mrs Nicholas, wedi paratoi te arbennig yn cynnwys mefus a hufen i ni i gyd, a'r rhai oedd i fod ar ddeiet arbennig yn mwynhau'r wledd. Roeddym i gyd yn falch iawn o weld Mrs Betty Hughes, cyn aelod ffyddlon a gweithgar o'r clwb wedi gwella mor dda a gyda help ei merch, Mrs Turner, wedi gallu uno â'r Clwb unwaith eto.

Diolchodd y llywydd y Parchedig Canon Barry Thomas i Miss Williams am y croeso cynnes.

Bydd cyfarfod cyffredinol i'r holl aelodau ar Fehefin 27 yn y Ganolfan.

HWYL Y PASIANT



Plant yr Ysgol Feithrin yn mwynhau eu hunain yn y Pasiant a gynhaliwyd yn neuadd y pentref yn ddiweddar.

BETHEL

Gohebydd: Geraint Elis, Cilgeran (Portdinorwig 670726)

LLONGYFARCHIADAU i Carys Wyn Hughes, 42 Bro Rhos ar ddathlu ei phen-blwydd yn 18 oed ar Fehefin 25ain.

Y NEUADD GOFFA: Dydd Sadwrn, Mehefin 10fed yn Y Felinheli, fel rhan o weithgareddau pan oedd Siarabang yn cael ei recordio, cynhaliwyd stondin Tombola a Chacennau. Gwnaethpwyd elw o £141 tuag a gronfa'r Neuadd. Hoffai Pwyllgor y Neuadd ddiolch i bawb a gyfrannodd eitemau i sicrhau lwyddiant y fenter.

Dyma enillwyr y raffl - Siocled (rhodd gan Treflyn Stores): Iris, Bonc, Y Felinheli; Potel o Win: Olwen Williams, Stad Eryri, Bethel.

BWS I'R EISTEDDFOD: Mae Mrs Nan Owen, Berwyn yn trefnu bws i fynd i'r Eisteddfod yn Llanrwst ar ddydd Iau, Awst 10fed. Bydd y bws yn cychwyn o Fethel am 9 y bore ac yn cychwyn adref o Lanrwst am tua 6 o'r gloch y pwn. Bydd y bws yn costio £2 i oedolion a £1.50 i blant dan 12 oed.

I sicrhau lle ar y bws cysylltwch â Mrs Owen mor fuan ag sydd modd.

LLONGYFARCHIADAU mawr i Miss Bethan Parry, athrawes Safon 2 yn yr ysgol ar ei phriodas yn ystod gwyliau'r Sulgwyn. Rwy'n siwr ein bod i gyd yn dymuno'r

gorau i Miss Parry yn ei bywyd priodasol ond anodd iawn fydd dod i arfer ei galw yn Mrs Thomas.

CYDYMDEIMLO: Ar Fai 11, dan amgylchiadau trist iawn, bu farw Mr Dyfnallt Wyn Morris, Penrhos. Estynwn bob cydymdeimlad â'i dad a'r teulu i gyd yn eu profedigaeth.

PWYLLGOR Y NEUADD: Yng nghyfarfod Pwyllgor y Neuadd nos Fercher, Mehefin 20fed cafodd yr aelodau syndod pleserus iawn pan gyrhaeddodd aelodau Clwb y Ffermwyr leuainc i gyflwyno siec am £500 i gronfa'r Neuadd. Bydd y cyfraniad yma yn hwb sylweddol i'r gronfa. Diolchwyd i aelodau'r clwb ar ran y pwyllgor gan y Cadeirydd, Mr Osgar Evans.

Penderfynwyd cynnal 'Tridiau o Hwyl' ym mis Gorffennaf i godi arian tuag at y Neuadd newydd. Nos Lun, Gorffennaf 17 am 6.30 cynhelir Helfa Drysor i gychwyn o'r Neuadd. Nos Fawrth, Gorffennaf 18 am 6.30 cynhelir noson o chwaraeon ar y cae chwarae ac ar y nos Fercher, Gorffennaf 19 am 7.00 cynhelir noson Bingo yn y Neuadd.

MERCHED Y WAWR: Daeth tymor o weithgareddau'r gangen i ben nos Fercher, Mehefin 14. Aeth nifer dda o'r aelodau ar ymweliad â gweithdy Inigo Jones, y Groeslon, lle cawsom gyfle i fynd o amgylch y gweithdy lle

PLANTOS BETHEL YN Y PASIANT



Rhai o blant lleiaf Bethel ym Mhasiant Rhanbarth Arfon o'r Mudiad Ysgolion Meithrin.

Cynhaliwyd y gweithgareddau yn Neuadd Bentrref Waunfawr ddydd Sadwrn, Mehefin 17.

maent yn trin y lechen i greu clociâu, gemau a nifer o bethau i'r diwydiant twristiaid.

Gorffenwyd y noson yng ngwesty Panton Arms, Penraeth, lle cafwyd pryd blasus. Diolchodd y llywydd, Mrs Meinir Roberts, i bawb am eu ffyddlondeb yn ystod y flwyddyn ac yn enwedig i Mrs Nora Parry am ei gwaith fel ysgrifenyddes weithgar iawn, a Mrs Mary Evans, y drysoryddes.

Llongyfarchwyd Mrs Mair Price ar gael ei phenodi yn bennaeth yr Adran Gymraeg yn Ysgol Friars, Bangor.

Dymunwyd gwellhad buan i Mr W J Ellis ac anfonwyd ein cofion at Mrs Ellis a'r teulu.

Penodwyd swyddogion newydd yn ystod y noson:

Llywydd: Mrs Glenys Griffiths; Is-lywydd: Mrs Nan Rowlands; Ysgrifenyddes: Mrs Alys Jones; Is-ysgrifenyddes: Mrs Gwyneth Hughes; Trysoryddes: Mrs Eirlys Williams; Is-drysoryddes: Mrs Gwyneth Jones.

Aelodau'r pwyllgor fydd Mrs Hughes, Coed Belyn; Mrs M Griffiths; Mrs Beti Owen; Mrs C Roberts; Mrs Rita Williams; Mrs Llinos Hughes.

Enillwyd y raffl gan Mrs Ceinwen Williams. Diolchodd Mrs Glenys Griffiths i bwyllgor y llynedd a gobeithia am gefnogaeth y tymor nesaf.

DYMUNIADAU GORAU: Ar ddiwedd y tymor, wedi bron i 20

mlynedd o wasanaeth fel athro yn yr ysgol, bydd Mr Ellis R Jones yn ymddeol. Mae gan genedlaethau o blant y pentref le i ddiolch iddo. Dymunwn ymddeoliad hir a hapus iawn i Mr Jones.

PYSGOTA DROS GYMRU: Dymuniadau gorau a lwc dda i Osgar Evans pan yn pysgota dros Gymru yn Y Ffindir.

YSGOL SUL Y CYSEGR: Fel arbrawf o hyn tan wyliau'r haf cynhelir Ysgol Sul y Cysegr am 10 o'r gloch y bore. Bydd y plant yn aros yn y Capel am ychydig ar ddechrau'r gwasanaeth ac yna yn mynd i'r Festri i'w gwahanol ddosbarthiadau. Bydd yr Ysgol Sul yn gorffen am 11 ar yr un amser ag Oedfa'r bore.

Gobeithio y bydd y trefniadau newydd yn dderbyniol.

TRIPIAU YR YSGOL SUL: Bydd triapiau Ysgol Sul Bethel a'r Cysegr yn mynd i Butlins ddydd Sadwrn, Gorffennaf 8fed. Gobeithio y bydd y tywydd yn braf ond bydd y plant yn sicr o fwynhau eu hunain beth bynnag fydd y tywydd.

LLONGYFARCHIADAU a dymuniadau gorau i Ian Ll Roberts, Bryn Myfyr fydd yn dathlu ei ben-blwydd yn 18 oed ar 24ain o Orffennaf.

LLONGYFARCHIADAU a dymuniadau da hefyd i Gareth Owen, 2 Fron Helyg fydd yn dathlu ei ben-blwydd yn 18 oed ar y 25ain o'r un mis.



Myfanwy Jones, arweinydd y Clwb Ffermwyr leuainc a nifer o aelodau'r Clwb yn cyflwyno siec am £500 i swyddogion Pwyllgor y Neuadd.

GWILYM H. WILLIAMS
BRYN DAIRY
2 BRYNHYFRYD

BETHEL
Ffôn

Port Dinorwig 670786



Llefrith
Llaeth Porfa
Llaeth heb Hufen
Wyau, Tatws
Diodydd
Ffrwythau


TAC SIS BETHEL

UNRHYW AMSER - UNRHYW BELLTER

Ffôn: (93) 670555

Am bob math o
WYDR wedi ei
DORRI, DDANFON
NEU EI OSOD
cysylltwch â

Barrys
GLASS



Camelot
PENISARWAUN
Ffôn: Llanberis 870486

DINORWIG

Gohebydd: Mr D.J. Thomas, 8 Maes Eilian

HAF HIRFLYN TESOG: Mae pob rhagolwg ar hyn o bryd ein bod ynghanol tymor haf hen ffasiwn a hyn yn ein atgoffa o'r hafau a arferem eu cael pen oeddem yn blant. Ers nifer o flynyddoedd bellach hafau digon symol a gawsom gyda heulwen yn brin. Dywaid yr astronomegwyr bod "sbotiau" ar yr haul yn amharu ar y dywydd a gawn a bod pelydrau yn ymsaethu allan o'r haul, ond eleni fe ddigwydd bod yr amgylchiadau'n ffafriol i ni gael haf hirfelyn tesog. Serch hynny fe gawn rhai o'r ffermwyr a rhai garddwyr yn cwyno bod prinder glaw yn gyfrifol am ddiffyg tyfiant gan adael pridd y gerddi yn llychlyd a digynnyrch. Gorchwyl llafurus iawn yw ceisio cario'r swm angenrheidiol o ddwr i wneud iawn dros y diffyg. Myn eraill bod angen glaw terfysg cyn y gwelir mwydo'r pridd yn effiethiol. Cydynabyddwn wrth gwrs fod rhannau o'r byd lle gall prinder dwr fod yn drychinebus ac achosi poen a blinder. O drugaredd ni ddaw'r profiad hwn i'n rhan ni.

COLLI CYFEILLION: Yn ddiweddar fe alwyd fy sylw i'r ffaith fod prysurdeb Nadolig a diwedd blwyddyn, a'r edrych ymlaen i flwyddyn newydd wedi gwneud i mi anghofio sôn am farwolaeth fy hen gyfaill Owen Evans, a fu un adeg yn byw yn 'Groeslon Uchaf'. Un o'r rhai y bûm yn cyd-chwarae ag ef oedd 'Now', ac roedd ef a'r diweddar Hughie Parry, 'Chwarel Fawr' - ty sydd bellach wedi ei chwalu - yn aelodau o ddosbarth Ysgol Sul y Cynghorydd Robert Jones, Ty Capel Sardis. Myned i fyw i ardaloedd eraill a fu rhan y cyfeillion annwyl hyn, ac o ganlyniad yr oeddem yn colli cwmnïaeth ein gilydd. Erys yr hiraeth serch hynny a'r atgofion yn ddi-rif.

A ninnau eisoes wedi cyferirio at Gapel Sardis priodol yw dweud bod capeli Bedyddwyr Dinorwig a Chlwt y Bont yn teimlo chwithdod oherwydd "galw adref" chiwroydd wedi myned ymlaen mewn dyddiau. Ar ôl i Mrs Katie Lewis symud i fyw o'r ardal yr oeddem yn naturiol yn colli ei chwmni o'r capel. Fe fu'n hynod o ffyddlon i Sardis tra roedd o fewn cyrraedd. Er iddi fyned heibio oedran yr addewid fe deimlwn i'r byw y golled o'i cholli. Fe ellir dweud yr un peth am Mrs Catherine Ellen Jones a wnaeth ei chartref gyda'r ferch yn Foel Gron. Fe fu'n byw am flynyddoedd cyn hynny yn Nhan y Buarth Uchaf, ac roedd hithau a Mrs Katie Lewis yn gymdogion agos pan oedd hithau'n byw yn Hafod y Braich. Trist yw sylweddoli hefyd, fel mae'r plant yn tyfu i fyny fe'u gorfodir i chwilio am waith mewn ardaloedd eraill, ac fe'n amddifedir ninnau o'r cyfraniad y gallent ei roddi i hyrwyddo'r achos yn y gornel hon o'r winllan. Fe gynorthwywyd ein gweinidog yn y

cyfarfod yn Sardis i ddangos ein parch i Mrs Jones gan y Parch William John Lewis, Ynys Môn.

Un a fu'n dal cysylltiad â Sardis a Libanus oedd Mrs Catherine Jane Jones, Hafod Oleu - gweddw'r diweddar frawd Orwig Jones, yntau'n fab i Mr Robert Jones, Ty Capel Sardis. Dywedai'r Parch Ifor Lloyd Williams B.A., ei bod hi'n ddiahebol am ei chymwynasgarwch a'i haelioni. Erfyniwn ar i Dduw ddod a rhai o'r newydd i lenwi'r bylchau sydd bellach mor amlwg yn y capel. Fe gynorthwywyd ein gweinidog gan y Parch Gwilym Parry, Penmaenmawr. Fe welwyd cyfeillion o bell ac agos yn yr angladdau hyn, a hyfryd oedd cael y fraint o gyfarfod â hen gyfeillion.

YMWELWYR: Fe ddeallwn i Mr a Mrs John Roberts, a fu'n byw ym Maes Eilian, ymweld yn ddiweddar â rhai o'u hen gyfeillion. Tystio'r oeddent pa mor hapus oeddynt yn Ninorwig.

DIOLCHIADAU: Dymuna Mr Gwilym Davies, 10 Bro Elidir ddiolch o galon i'w deulu, ei ffrindiau a'i gymdogion am yr holl gardiau a'r dymuniadau, yr holl roddion a phob ymweliad a dderbyniodd tra dan driniaeth yn yr ysbyty, ac ar ôl dod adref. Hefyd llawer o ddiolch i'r holl feddygon a'r gweinyddesau am eu gofal annwyl a'u caredigrwydd yn Ward Dulas, Ysbyty Gwynedd.

Fe ofynir i ni hefyd ddatgan diolchgarwch ar ran Mr a Mrs Abram M Jones, Foelgron am bob cydymdeimlad a charedigrwydd a dderbyniasant yn eu profedigaeth fel teulu o golli mam a nain annwyl.

YR WYL BREGETHU:

Cynhaliwyd Gwyl Bregethu hynod o lwyddiannus yn Eglwys St Mair ar brynghawn Sul, Mehefin 18fed, pryd y pregethwyd gan y Parch Gwilym Berw Hughes, Ficer Penmaenmawr. Hoffai swyddogion yr Eglwys ddiolch i aelodau Capeli Sardis a MC Dinorwig am ymuno gyda aelodau St Mair yn y gwasanaeth. Pan mae pawb yn dod at ei gilydd fel hyn mae'n cyfoethogi tipyn ar y gwasanaethau. Trueni na fyddai'n bosibl i Gristnogion y pentref addoli gyda'i gilydd yn fwy aml.

GWELLHAD BUAN: Wrth i'r Eco fynd i'r wasg deallwn bod Mrs Fleming, 1 Maes Eilian wedi gorfod mynd i Ysbyty Gwynedd. Hoffai aelodau Eglwys St Mair ddymuno gwellhad llwyr iddi ac edrychir ymlaen at ei gweld gartref yn fuan. Dymunwn adferiad i eraill sydd yn cwyno y dyddiau hyn hefyd.

CLWB CERDDED: Cafwyd ymateb da iawn i'r daith gyntaf a drefnwyd dydd Sadwrn, Mehefin 3ydd gan y Clwb. Daeth oddeutu ugain o bobl at ei gilydd, yn oedolion a phlant, ac er bod pawb wedi

blino erbyn y diwedd, cafwyd tipyn o hwyl ac fe ddysgwyd tipyn ar y ffordd. Bydd y daith nesaf ar ddydd Sadwrn, 1af o Orffennaf a bydd pawb yn cychwyn o'r Ganolfan am 10.00. Y bwriad yw cerdded i gyfeiriad Marchlyn, ac yna i fyny hyd at yr Elidir Fach. Mae croeso i bawb ddod, dim ond iddynt ddod a dillad addas a rhywbeth i'w fwyta.

CAMGYMERIAD: Dylem ymddiheuro i Lesley Dearn o Fron Deg am ei bedyddio gyda'r enw Alison yn y rhifyn diwethaf o'r Eco. Gobeithio y cawn faddeuant. Gyda llaw, Lesley sydd wedi bod yn llunio posteri ar gyfer Clwb Cerdded a Hwyl Haf ac yr ydym yn ddyledus iawn iddi am ei gwaith. Hefyd deallwn bod ei rhieni wedi dilyn cwrs Wlpan yn y Brifysgol ym Mangor yn ystod y pythefnos diwethaf. Dyma enghraifft dda o deulu sydd wedi symud i'r pentref i fyw ac wedi gwneud ymdrech hynod o arbenig, ac wedi llwyddo i siarad Cymraeg ac ymuno ym mywyd cymdeithasol y pentref. Maent i'w llongyfarch yn fawr am hyn.

TAITH GERDDED: Fel y cofiwch cawsom flas y tro diwethaf ar y rhan gyntaf o'r daith a luniwyd gan Mrs Alice Griffith, Tan y Bwlch ar gyfer yr Eisteddfod Bentref mis Rhagfyr y llynedd.

Dyma weddill y daith i chwi: Symud ymlaen o'r Allt Ddu heibio Clogwyn Gwyn, Maen Gwyn a Than y Marian, dod at y ciosg a throï i'r dde i'r llwybr cyhoeddus wrth y Minffordd. Tynnu i fyny yma ar hyd llywbr y Gorlan, heibio Gorlan Wen a Tan y Ffordd cyn dod allan yn Lôn Garret. Cerdded ymlaen i gyfeiriad y rhan uchaf o'r chwarel; y Garret y galwyd y rhan uchaf yma. Wedyn dringo i'r man uchaf, edrych a gwirioni ar yr olygfa eto. Ynys Môn o un pen i'r llall, y panorama o flynyddoedd ac Afon Menai yn disgleirio rhwng y tir mawr a Môn. Dychwelyd i lawr y ffordd heibio amryw o fyrddynod, Garreg Lydan, Terfyn, Braich Poeth, Tan y Braich, cyn dod at Gapel Sardis 1820. Cymryd y llwybr cyhoeddus i'r dde, heibio'r Foel

a dod allan yn y Ganolfan, i lawr i gyfeiriad y Fachwen, heibio Ty'r Ysgol, cartref tair o enethod sydd yn enwog trwy Gymru am eu medrusrwydd ym myd canu.

Heibio Buarth Newydd, Tan y Fron, a sylwi ar amryw o'r cartrefi gyda gerddi lliwgar a thwt, rhywun yn brysur yn tynnu yr hen ddant y llew yma. Dod at Chwarel Goch a throï i'r chwith, heibio Pant Gwyn, Gwaredog a Thy'n y Gadlas. Bu'r enwog Kate Roberts yn ymwelydd cyson â'r cartref hwn pan oedd rhai o'i theulu yn trigo yma.


Bron Fferam yw'r cartref nesaf ar y daith, sylwaf fod Llyn Corddi yma, mae wedi ei gadw yn ardderchog, yn lân gyda blodau a llysiau dwr ynddo a phob man mor ddestlus o'i gwmpas. Cof da pan fyddent yn ei ddefnyddio i gorddi i wneud menyyn yno flynyddoedd yn ôl.

Dilyn llwybr cyhoeddus sydd yn mynd heibio cefn ty Y Gegin (mae hanes yn dweud fod y lle hwn wedi bod yn gegin i hen Blas Fachwen sydd wedi ei gladdu odditan domenydd rwbwl y chwarel). Ymlaen heibio i Gongl y Mynydd (ty haf) dod allan i'r ffordd ger Bron Myfyr. Yn y ty hwn y trigai holl weinidogion a fu yng Nghapel M.C. Un o'r gweinidogion hynny oedd y Parch Puleston Jones a fyddai'n ymlwybro trwy'r fro ar gefn ei geffyl ac yntau yn wr dall. Mae ein taith bron ar ben, i fyny heibio Fron Deg a'r Cae Chwarae ac yn ôl i Dy'n y Fawnog. Taith a fyddai yn cymryd prynhawn cyfan i'w cherdded, a chael mwynhad pur o wneud hynny.

LLONGYFARCHIADAU i Alwyn, mab Mr a Mrs Maldwyn Hughes, 2 Bryn Gro, ar ei benodi yn Ddirprwy Brifathro, Ysgol Gynradd Llanfaircaereinion, Powys. Bydd Alwyn yn dechrau ar ei swydd newydd ym mis Medi. Pob llwyddiant iddo.

O'R YSBYTY: Dymunwn wellhad llwyr a buan i Mrs Megan Olwen Jones, 21 Dôl Afon a Mr Len Parry, Hebron ar ôl derbyn triniaeth yn Ysbyty Gwynedd.

FFENESTRI UPVC DRYSAU MEWN GWYN NEU MAHOGANI



Esiaml o bris a gosod

Crefftwyr profiadol yn eu gosod

Ffoniwch am bris i

**J R PRITCHARD, 14 Glanrafon,
Bontnewydd**

Ffôn: Caernarfon 3507 (dydd neu gyda'r nos)

Croesawn ymholiadau gan fasnachwyr

BRYNREFAIL

Gohebydd: Miss Lowri Prys Roberts, Godre'r Coed. 870580



PRIODAS: Dydd Sul, 28ain o Fai yng nghapel MC Brynrefail, priodwyd Miss Anita Jones, merch Mr a Mrs Ken Jones, Ce Coch â Mr Stephen Keith Long, mab Mr a Mrs Gerald Long, Treetops, Hoddesdon, Herts. Gwasanaethwyd gan y Gweinidog, y Parch John Morris. Yr organyddes oedd Miss Lowri Prys Roberts a'r delynores oedd Miss Mari Phillips. Roedd y briodferch wedi ei gwisgo mewn gwisg o satin trwm gwyn wedi ei hadurno â lês yn null 'Bo-peep', a wnaed ganddi hi ei hun, ynghyd â phenwisg addurniedig â pherlau. Cariai dusw o flodau carnasiwn pinc. Ei morynion oedd ei dwy gyfnither Bethan a Nicola, Tracy ei ffrind ynghyd â dwy ferch fach - Emma ei nith a Laura, merch i ffrind. Gwisgai'r oll ohonynt wisgoedd yn yr un dull â'r briodferch mewn satin pinc. Tusw o rosynnau a charnasiwn pinc oedd blodau'r morynion tra cariai'r ddwy ferch fach fasgedi o flodau cyffelyb. Y gwas priodas oedd Darren Long, brawd y priodfab a'r tywyswyr oedd Dave, ei frawd yng nghyfraith, Garry a Terry, brodyr y briodferch. Derbyniodd Anita lwy bren wedi ei cherfio gan ei hewythr Allan. Gafwyd y wledd briodas i 120 o wahoddedigion yng Ngwesty Fictoria, Llanberis. Trefnwyd y blodau a gwnaed y

gacen gan fam y briodferch, Mrs Pat Jones. Treuliwyd y melrawd yn lwerddon. Mae'r priodfab yn dal swydd yng Nghanolfan Awyr Agored Hillingdon yng Nghwm Pennant a'r briodferch yn athrawes yn Ysgol Uwchradd Bodedern, Ynys Môn. Ar hyn o bryd maent ar fin cwblhau adeiladu eu cartref newydd, Tan yr Onnen, ym Brynrefail. Ein dymuniadau gorau iddynt i'r dyfodol.

SEFYDLIAD Y MERCHED: Nos Lun, Mehefin 19 bu cyfarfyddiad o'r gangen yn y Festri. Roedd y noson dan ofal Mrs Mair Jones a Mrs Jean Davies, pryd y cafwyd cwis, a'r atebion i'w canfod drwy gymorth alawon ar y piano a'r cyfan yn creu undod siriol. Diolchwyd iddynt gan Mrs Carol Houston. Gwnaed y te gan Mrs Elinor Williams a Mrs Helen Jones a diolchwyd iddynt gan Mrs Betty Owen. Hi hefyd enillodd wobr y mis, rhoddedig gan Mrs Mair Jones. Bydd y cyfarfod nesaf, nos Lun, Gorffennaf 17eg ac mae cais ar i bob aelod ddod ag eitem ddi-dorol neu grair hanesyddol i'r cyfarfod. Bydd y wibdaith flynyddol yn cael ei threfnu ar gyfer mis Medi pryd yn ymwelir â Phlas Tanybwllch.

CRONFA APÊL EISTEDDFOD YR URDD 1990: Nos Fawrth, Mehefin 10fed trefnwyd noson gymdeithasol yn y festri dan

nawdd y Pwyllgor Apel Lleol. Gwahoddwyd Sioned Jones i arddangos cynnyrch Ceramia a Gwen Roberts a Heulwen Williams i arddangos crefftau amrywiol o'u heiddo. Mae'r Pwyllgor yn ddiolchgar am bob cefnogaeth a gafwyd tuag at chwyddo'r Gronfa Leol.

TRIP: Bydd Trip Dirgel Capel MC Brynrefail eleni nos Wener, Gorffennaf 21ain. Cychwynir am 6 o'r gloch.

GENEDIGAETH:

Llongyfarchiadau i Robin a Wendy Jones, 94 Maes Padarn Llanberis

ar enedigaeth eu mab, Robin Carl Wayne, wyr i Mr a Mrs E Jones, Ty'n Twll a gorwyr i Mrs Evans, Pant y Buarth. Mae Robin yn faban arbennig iawn oherwydd mae ganddo chwe nain! Mae'n weddol gyffredin cael dwy nain ond yn ychwanegol at hynny mae i Robin dair hen nain ac un hen, hen nain, sef Mrs Catherine Ann Jones o Dywyn, Meirionnydd a welir yn y darlun gydag ef a'i rieni. Derbyniwyd nifer helaeth o gardiau ac anrhegion ar yr achlysur ac mae'r teulu yn ddiolchgar iawn i bawb am eu caredigrwydd.



Robin Carl Wayne a lin ei hen, hen nain

CEUNANT

Gwenno Parri, Morawel

YN YR YSBYTY: Dymunwn wellhad buan i Mr Caradog Jones, Ty Capel, sydd ar hyn o bryd yn Ysbyty Gwynedd.

CROESO ADREF O YSBYTY GWYNEDD i Ceri Williams, Tyddyn Ni; Mrs Olwen Jones, Y Garth a Mr a Mrs Pritchard, Glasfryn. Gobeithiwn y cânt i gyd adferiad llwyr a buan.

LLONGYFARCHIADAU i Tony Storey, Awel y Mynydd ar ei lwyddiant yn arholiadau B.Tec. mewn dylunio ac arlunio yng Ngholeg Technegol Bangor. Ei fwriad yn awr yw dilyn cwrs HNC mewn Audio Visual Design Studies yng Ngholeg Dewsbury, Swydd Efrog. Dymunwn bob llwyddiant iddo yn y dyfodol.

LLONGYFARCHIADAU hefyd i Einir Parri ar ennill gradd BA gydag anrhydedd mewn Cymraeg yng Ngholeg Prifysgol Gogledd Cymru, Bangor.

DRAENOG

Clywir am bob math o ddiladau yn cael eu dwyn oddi ar lein ddillad. Yn ddiweddar, trôns, a hwnnw'n un gorau, a ddygwyd oddi ar lein ddillad un o denantiaid Hafod Olau, Deiniolen. Pwy oedd perchennog y trôns? Wel, arferai fod yn aelod ffyddlon iawn o'r seindorf lleol.

MAE'R
SAMARIAID
YN GWRANDO,
YN ABBEY ROAD




BANGOR
354646

Joelas

CARTREF YR HENOED
CARTREF NEWYDD COFRESTRDIDIG
AG IDDO AWYRGYLCH GYMREIG
CYSYLLTWCH Â MRS MEIRWEN
THOMAS NEU MRS ELI WILLIAMS
Ffordd yr Orsaf, Llanrug, Caernarfon
(0286) 4652

BILL ac EILEEN GRIFFITHS



**Antiques
Ivy Cottage
BETHEL**

Ffôn:
Y FELINHELI 670556



PRYNWYR A GWERTHWYR HEN BETHAU
Telir prisiau da
Trafodir busnes yn gwbl breifat a chyfrinachol

CIABI

Gan Y Gwalch

Pan oeddwn i'n rhodio ar y Cei y diwrnod o'r blaen, pwy welais i yn cistedd ar rhyw fainc a'i wynab tua'r dwr, ond yr hen fachgen hwnnw sydd yn gwisgo mantall y Deryn Mawr.

"Sut wyt ti?" medda fo. "Rho dy glun i lawr am funud i dynnu dipyn o wynt y môr i dy sgy-faint."

"Ych hun ydach chi?" medda fi, ddim yn gweld arwydd o neb ar ei gyfyl o.

"Ia - adra mae'r hen fodryb. Mi rydw i wedi torri fy nhennyn heddiw, ond mi ges drafferth. Wyddost ti be'? Mi fuo raid i mi fynd ar fy mhedwar hyd dinna'r cloddia bob cam i'r lon bost cyn yr oedd hi'n saff i mi godi ar fy union sefyll."

"Tewch da chi. Sut dempar sydd arni hi?"

"Does 'na fawr o drefn wedi bod arni fachgan. Wn i ddim be' sy' wedi dwad iddi hi. Ac mi rydw inna wedi bod yn ddigon symol cofia. Rhyw gric yn fy meingefn i achau. Ond mi rydw i'n gwybod be' wnes i i'w gael o hefyd."

"Wedi cael dipyn o'r gafod ydach chi?"

"Naci achau. Mi godis gant o datws ar gefn yr hen fodryb yn y cae acw rhyw ddiwrnod. Dydw i byth wedi bod yn 'run fath."

"Ydach chi'n cymyd rhywbath ato fo?"

"Dyna i ti pan y dois i i lawr heddiw a dweud y gwir - i'r siop drygist i nôl dipyn o giabi. Mae gen i gred mawr mewn ciabi, 'rioed wedi bod."

"Sgynoch chi wir," medda finna, wedi bodloni ar roi fy hun ar lwybr mabinogi arall erbyn hynny.

"Mi rydw i'n cofio gweithio i ffwrdd 'na ar y ffermydd ac yn y gerddi yn yr haf - gwaith tymhorol wyt ti'n gweld. Mi fyd-dwn i'n mynd o dan do yn y gaeaf. A mi fyddwn i'n cael dwr poeth mewn rhyw dy. Roedd yna ddynas reit glen yno yr adag honno, a'i mam hi'n byw hefo hi - yr hen garpan - yn gyfroda o gric mala. Dyna lle'r oedd hi hyd y fan honno ar ei bagla yn straglio

mynd. Biti ei gweld hi. A dyma fi'n tynnu ar draws hefo hi rhyw ddiwrnod.

"Duwcs," medda fi. "Pam na driwch chi dipyn o giabi?"

"Waeth i mi wneud na pheidio," medda hi fel 'na. "Mi rydw i wedi trio pob dim arall. Sut wyt ti'n ei gymyd o?"

"Cymwch lond llwy fwrdd mewn dwr claeaf peth dwytha," medda fi. A hynny fu.

Roeddwn i'n symud o'r swabia rheiny wedyn yn is i lawr ar ôl y cnydau fel yr oeddau nhw yn aeddfedu, a welais i ddim ohoni am bobiad neu ddau. Ond ar ddiweadd y tymor roeddwn i'n gweithio fy ffordd yn f'ôl yn nes at betha, a dyna lle roeddwn i'n cerdded ar hyd y lôn hefo pisar bach yn fy llaw, a beth ddaeth rownd rhyw dro i fy ngwynab i mwya sydyn, ond rhyw ddynas ar gefn beic drop handyls a'i phen i lawr ar andros o sgri. Wyddost ti be'? Ches i ddim ond rhoi sbonc oddiar ei llwybr hi, neu mi faswn wedi cael ei holwyn blaen hi yn fy nghagla. Dyma hi'n stopio yn stond a'r beic hwnnw ynllusgo hyd y lon a'i diars o yn fwg glas i gyd, a rhyw drowsus cwta amdani, ddigon i dynnu dy feddwl di oddiar fwg.

"Pam na gymerwch chi ofol lle rydach chi'n mynd," medda fi wrthi fel 'na yn reit siort. "Ylwch, mi rydach chi wedi tocio fy mhizar i." A dyma fi'n ei ddangos o iddi hi, ond chymerodd hi ddim sylw yn y byd.

"Sut wyt ti?" medda hi wrthi i lond ei cheg. "Wyt ti ddim yn fy nabod i?"

A phwy oedd hi erbyn gweld ond yr hen wraig honno oedd yn llawn cric mala.

"Lle mae eich bagla chi?" medda fi wrthi yn y diwadd.

"Mi rydw i wedi eu torri nhw yn bricia pys," medda hi, "a ches i rioed well cnwd. Wyddost ti be'?"

Dyna'r cyngor gora ges i gan neb erioed oedd y ciabi hwnnw." A ffwrdd â hi ar y beic hwnnw fel gwas neidar wedi gweld cudyll coch. Ac mi roedd ganddi ddigon o nyrf i weiddi arna i tros ei hysgwydd. "Tria ditha sbio lle rwyd ti'n mynd, neu nid yn dy bisar di'n unig y bydd 'na dolc."

Mi rydw i wedi sylwi un peth wyddost ti - a hynny yn ddiweddar ar f'oes. Mwya yn y byd wnei di i rai, lleia dy barch fyddi di."

"Welsoch chi hi wedyn?" medda fi yn ddigon ffol gan wahodd traethawd arall.

"Do fachgan, dyna i ti beth rhyfadd. Roeddwn i hyd y fan honno wedyn yr haf nesa yn chwilio am ddwr poeth, a dyna lle roedd hi wedyn, yr hen wraig, yn ôl wrth ei bagla.

"Duwcs be' sy' wedi dwad iddi hi eto byth?" medda fi wrth y ferch. "Ydy hi'n dal i gymyd ei chiabi?"

"Ydy'n tad," medda hi fel 'na yn reit bendant. Ond faswn i'n meddwl mai nid cric mala oedd wedi ei gyrru hi yn ei hól ar ei bagla. Roedd hi wedi gorfod cael par newydd erbyn hyn wyt ti'n gweld, ac wedi dyfaru ei henaidd dorri lleill yn bricia pys.

"Beth ddaeth iddi hi?" medda fi yn y diwadd wrth y ddynas.

Ac erbyn i mi gael yr hanas - mi faswn i'n meddwl ei bod hi wedi moedro hefo'r beic drop handyls hwnnw - yr hen wraig. Roedd hi ar ei gefn o ymhob man, dest na fasa hi yn mynd â fo i'w gwely hefo hi. Ac i roedd hi'n gyrru faswn i'n meddwl, a rhyw fora wrth ddwad adra o nôl ei phension, mi aeth ar ei phen i rhyw ddybl decar. A dyna lle y cawson nhw hyd iddi, yn y cab ar lin y dreifar, a phan aeth y condyctor i fynyr grisia i hel pres, dyna lle roedd ei beic hi yn y set flaen a'i olwyn ôl o yn dal i droi. Mi fedra i goelio hynny hefyd. Roedd hi bob amser yn deud fod yna ffrî-whîl da arno fo."

"Sut y buo hi arni wedyn?" medda fi.

"Wel mi ddaeth trosto fo wyddost ti, ymhen amsar, ond mi aeth i gicio fel muals - ddim byd yn filan chwaith ysti. Cael rhyw hyrddia bydda hi. Roedd y doctor yn dweud fod yna rhyw nyrf wedi mynd yn groes yn ei phenglin hi. Ond mi roedd o'n beth cas. Wyddat ti ddim pa bryd y basa fo yn ei tharo hi wyt ti'n gweld.

Roedd y ferch wedi mynd â hi i rhyw dy byta am banad faswn i'n meddwl, ac mi gafodd hwrdd ddrwg yn y fan honno. Roedd hi wedi cicio bobol yn eu crymoga o

dan y bwrdd nes yr oeddau nhw yn ddu las, ac mi falodd set gyfa o lestri wilo patant oedd wedi bod yn deulu'r ddynas oedd biau'r lle am flynyddoedd, ac mi wnaeth honno gês arni hi. Ond yn rhydd y daeth hi. Roedd ei thwrna hi wedi cael papur doctor i brofi ei anhwylder hi wyt ti'n gweld."

"Welsoch chi hi wedyn?" medda fi, pan gymerodd o wynt.

"Unwaith yn unig, ac mi roedd hynny yn ormod. Roeddwn i wedi mynd i'r dre honno rhyw bnawn Sadwrn, i swlffa fel bydd rhywun, ac mi ddois i'w gwynab hi mwya disymwth. Dyna lle roedd hi o flaen siop emau yn sbio yn y ffe-nast. Roedd honno yn llawn o watsus patant lufar werth cannoedd o bunna, a modrwy a rhyw dacla o bob math."

"Sut wyt ti?" medda hi fel 'na pan welodd hi fi. "Trio cael anrhag i fy nith ydw i," medda hi. "Mae hi wedi priodi ers pum mlynadd ar hugain. Ond mae hi'n anodd gwybod be' i gael. Wyt ti'n licio'r llwya arian yna?"

Ond cyn i mi gael cyfle i ddeud dim roedd hi wedi dechra ar un o'i hyrddia, a dyma hi'n rhoi ei chlem yn glir drwy'r ffenest i ganol y watsus rheiny. Wedyn dyma'r clycha lladron yn dechra canu ym mhob man ac mi roeddwn i ar fin eu goleuo hi, ond mi ges arbed y drafferth. Roedd yna dri plisman ar ein pac ni mewn dau funud. Roedd yna un mawr fel mastiff wedi tynnu ei lyfr allan mewn dau funud i gymeryd particilars yr hen wraig, ac yr oedd o'n sefyll reit o'i blaen hi, ac yr oedd o'n dewud wedyn, wrth roi tystio-laeth yn y llys, mai hwnnw oedd y camgymeriad mwya iddo fo ei wneud ers pan oedd o yn y ffôrs. Doedd yr hen wraig ddim wedi llawn gael tros ei hwrdd wyt ti'n gweld, a dyma hi a chic iddo fo yn ei ben glin nes yr oedd o yn ei ddyble. Ac mi fuo raid iddo fo ollwng ei lyfr i gael ei ddwy law yn rhydd i nyrsio ei goes, ac wrth gwrs ddaru hynny wella dim ar ei agwedd o tuag at yr holl achos."

"Sut y buo hi arni hi wedyn?"

"Mi fuo raid iddyn nhw roi handcyffs arni hi yn y diwadd, a ffonio am y fan ddu i fynd â hi i mewn. Ond mi gawson fyda. Ac yno y basa nhw hyd heddiw am wn i, onibai i mi awgrymu wrthyn nhw roi pâr arall ar ei choesa hi. Ac er mwyn codi dipyn ar ei chalon hi pan oeddau nhw yn cau arni hi, dyma fi'n deud wrthi hi.

"Peidiwch ag anghofio cymyd ych ciabi yn y jêl."

Mae rhyw air bach o galondid fel yna yn mynd ymhell hefo hen bobol wyddost ti."

Y GLORIAN

Tŷ Birmingham, 6 Stryd Goodman

LLANBERIS

Arbedwch bunnoedd ar eich bil siopa
wythnosol. Dewch i weld ein
amrywiaeth eang o fwydydd

**Siwgr, Cawl, Blawd, Cnau, Pasta,
Fferins, Diodydd, Ffrwythau Sych,
Grawnfwydydd etc.**

CEWCH BWYSO EICH BWYD EICH HUN YN ÔL

EICH ANGEN

AR AGOR BOB DYDD 9-8pm

Gwasanaeth danfon parseli bychain
a dogfennau hefo motobeic

Wheels Despatch

Yr un diwrnod rhywle'n y wlad.

Ffoniwch:

LLANGOED
(0248) 78787

neu

LLANBERIS
(0286) 870488

Dyddiadur y Mis

GORFFENNAF

1. **Sadwrn:** CWMYGLO: Mabolgampau ar gae y pentref. 2.00
DINORWIG: Clwb Cerdded - cychwyn o'r ganolfan am 10.00.
LLANRUG: Capel Mawr. Trip yr Ysgol Sul i ddiwrnod arbennig yr Ysgolion Sul - Butlins.
2. **Sul:** DEINIOLEN: Cymanfa Ganu gyda Seindorf Deiniolen dan arweiniad Goronwy Jones.
3. **Llun:** DEINIOLEN: Pêl-droed 5-bob-ochr.
DEINIOLEN: Sefydliad y Merched.
4. **Mawrth:** DEINIOLEN: Undeb y Mamau. 7.00
DEINIOLEN: Disgo yn yr Ysgol Feithrin.
5. **Mercher:** DEINIOLEN: Coroni Brenhines y Carnifal.
6. **Iau:** WAUNFAWR: Sefydliad y Merched.
DEINIOLEN: Mabolgampau.
LLANRUG: Sêl Cist Car ar fuarth yr Ysgol Gynradd - elw at Apêl yr Urd.
7. **Gwener:** DEINIOLEN: Bingo i'r plant yn Ystafell y Seindorf.
LLANBERIS: Te yr Henoed.
8. **Sadwrn:** BETHEL: Trip Ysgol Sul Bethel a Chysegr i Butlins.
PENISARWAUN: Trip Ysgolion Sul i Rhyl.
DEINIOLEN: Y Carnifal. 1.45 ar fuarth yr ysgol.
14. **Gwener:** DEINIOLEN: Bingo yn Ystafell y Seindorf. 8.00
15. **Sadwrn:** WAUNFAWR: Barbeciw yr Antur ym Mryn Pistyll. 6.00.
17. **Llun:** BETHEL: Helfa Drysor. 6.30.
BRYNREFAIL: Sefydliad y Mer-

ched - Noson i drafod hen bethau.
18. **Mawrth:** BETHEL: Chwaraeon ar y Cae Chwarae. 6.30.
19. **Mercher:** BETHEL: Bingo yn y Neuadd. 7.00
YR ARDAL: Yr ysgolion yn cau.
20. **Iau:** PONTRHYTHALLT: Cyfarfod y Chwirydd. 2.00.
21. **Gwener:** DEINIOLEN: Bingo yn Ystafell y Seindorf. 8.00.
LLANBERIS: Te yr Henoed.
BRYNREFAIL: Trip Dirgel Capel MC.6.00
28. **Gwener:** DEINIOLEN: Bingo yn Ystafell y Seindorf. 8.00
Cofiwch anfon rhestr o ddyddiadau cyfarfodydd eich cymdeithasau am y tymor nesaf i Drefnydd y Dyddiadur, Pant Afon Bach, Llanrug, neu ffoniwch Waunfawr 200.

Parhad o Dudalen 12

DIOLCH: Dymuna Ronald G Thomas, Llys Menai, Afon Terrace, ddiolch i'w berthnasau, cyfeillion a chymdogion am bob arwydd o gydymdeimlad a charedigrwydd a dderbyniodd yn ystod ei brofedigaeth.
Diolch i'r Parch J Pritchard, hefyd E W Pritchard, Trefnwyr Angladdau, Llanberis.
Derbyniwyd £200 tuag at Gronfa Ymchwil Cancr. Diolch o galon i bawb.
Heather, John ac Elin; Blodwen Mullins, Northampton ac Olwen Roberts, Bootle; Jack a Carys Angel; Ysgol Dolbadarn, Mrs Williams a Nancy, Cae Bach.

O Eisteddfod Penisarwaun

Cinio Dydd Sul

Allan o'r Eglwys,
Adref â fi
Am bryd blasus
O ginio dydd Sul i ni.
Cig mochyn, saws afal
Pys a bresych gwyrdd,
A thatws bach newydd
O bridd yr ardd,
A grefi brown poeth
Yn nofio yn hardd.
Cwstard i bwdin
A tharten afal fawr
Ond collodd Dad
Y cyfan ar y llawr.
Lemonêd mewn gwydr clir
Golchi'r cwbl
I lawr lôn goch, hir;
Diolch mam am ginio neis
A plis, tro nesaf, gawn ni bwdin reis.

Ynry Roberts - 2il)

Rhywbeth Blasus

Dod adref o'r ysgol ac eisiau bwyd,
Rhedeg i'r ty ac at yr oergell lwyd,
Yno roedd bocs o biffbyrgers crwn
Rhoi nionod a mwstard poeth ar y bwn.
Llyncu'r biffbyrger a sos coch ym mhob man,
Gofynais i mi fy hun, "O pam, o pam?"
Mam yn dod i fewn i'r ty
Ac yn rhoi'r ffræ orau i mi,
Ond er y ffræ
roeddwn i yn llawn
o biffbyrger mawr iawn.

(Llyr Griffith - 1af)

ROWNDERI

Mewn gemau yn erbyn Ysgol Syr Thomas Jones, Amlwch, daeth tîm y flwyddyn gyntaf yn gyfartal, yr ail yn ennill y drydedd yn colli a thîm y bedwaredd flwyddyn hefyd yn ennill. Da iawn genod!

Colli mewn gem agos yn erbyn Pwllheli fu hanes tîm y bedwaredd ym mhencampwriaeth ysgolion Arfon, a hynny yn y ffeinal ar gacau Ysgol Syr Huw Owen. Pumed oedd safle tîm genethod y flwyddyn gyntaf a'r ail, ac fe ddaeth y tîm genethod y drydedd flwyddyn yn bedwerydd yn ei cystadleuaeth hwy.

I drin a thrwsio
pob math o
beiriannau gwnïo
**MENAI SEWING
MACHINE CENTRE**
40 Stryd Fawr
PORTHAETHWY
Ffôn: (93) 714043
neu
Caernarfon 4520
edau, nodwyddau
ac ati mewn stoc

CRONFA GOFFA R. H. OWEN

Gwahoddir ceisiadau am grant o'r gronfa uchod. Anfoner am y manylion a'r ffurflenni cais at

Aled Owen

13 Charlotte Street, Llanberis
Dyddiad cau : Awst 31

Gwesty
Dolbadarn
LLANBERIS Ffôn: 870277



Am groeso cartrefol Cymreig bob amser gan
Aneuryn a Jeanette Jones a'r staff.

THEATR GORLLEWIN MORGANNWG

Canolfan Gymuned
Llangernyw

**TROEDIGAETH
VANESSA
DRWS NESA'**

Theatr fywiog o gomedi frathog a chân
gyda stori ddiddorol
gan y Cwmni roddodd i
Eisteddfod Casnewydd a Chymru 1988
yr arwr mawr
JEREMIA JONES...

Tocynnau: £3.00 (Gostyngiadau £1.50)

Ar Werth

Adran Theatrau Cymraeg ym Mhabell S4C
neu
Caban Tocynnau yr Eisteddfod
(wrth y fynedfa i'r Maes)

Os am ARCHEBU TOCYNNAU YMLAEN LLAW
danfoner at Theatr Gorllewin Morgannwg i'r cyfeiriad
isod, gyda'r arian cywir, cyn Awst 1af.

Casglwr y tocynnau wrth y drws noson y perfformiad.


Gyda chymorth
Cyngor
Celfyddydau Cymru,
Cyngor Celfyddydau Prydain

THEATR GORLLEWIN MORGANNWG, Ysgol Gyfun Sandfields,
Southdown Drive, Port Talbot, SA12 7AH. 0639-898077
Cymdeithas Celfyddydau Gorllewin Cymru, Awdurdod Addysg Gorllewin Morgannwg

CHWARAEON

CYFARFOD ATHLETAU YSGOL BRYNREFAIL

Ty Elidir fu'n fuddugol eleni gyda 227 o bwyntiau, Eryri yn ail, ac yna Gwryfai ac Eilian yn olaf. Kelvin Houston enillodd y Victor Ludorum am y mwyaf o farciau ymhlith y bechgyn, a dod yn gyfartal am y Vitrix Ludorum wnaeth ei chwaer, Nicola, a Linda Prydderch. Fe welir y tri yn y llun isod yn arddangos eu medalau, gyda Linda yn sefyll rhwng y brawd a'r chwaer.



Fe wobrwyyd hefyd y canlynol am berfformiadau hnod o dda yn ystod y cyfarfod:

Jonathan Davies (Blwyddyn 1) – ennill 7 cystadleuaeth.

Sion Wyn Hughes (Blwyddyn 2) – ennill 4 cystadleuaeth.

Aled Griffiths (Blwyddyn 3) – Torri record naid hir (record a osodwyd gan Kevin Davies yn 1971).

Colin Jones (Blwyddyn 4) – ennill yr 800m. a'r 1500m. a thorri y record traws gwlad.

Carolyn Jones (Blwyddyn 1) – ennill 4 cystadleuaeth.

Bu tîm o'r ysgol yn cystadlu ym mhencampwriaethau Ysgolion Arfon hefyd ar Fai 18fed, ac o ganlyniad fe ddewiswyd nifer ohonynt i gynrychioli Arfon ym mhencampwriaethau Gwynedd. Yn anffodus, dod yn ail wnaeth ein goreuon, ac Aled Griffiths yn unig gaiff y cynnig o gynrychioli ei Sir ym mhencampwriaeth Cymru. Er mai ail oedd yn ei ras, fe dorodd ef a'r buddugwr yr hen record. Daeth Colin Jones yn ail yn y ras 3000m., Kelvin Houston yn ail yn y naid driphlyg, ac ail hefyd oedd Gwilym Jones ar daflu'r ddisgen.

Yn y llun isod gweler oreuon cyfarfod athletau'r ysgol. Yn y cefn, Aled Griffiths, Colin Jones, Sion Wyn Hughes a Jonathan Davies. Carolyn Jones, Helen Hughes a Julie Cole Jones sy'n sefyll yn y blaen.



CRICED DAN 13 OED

Llongyfarchiadau i Aled Roberts o Lanrug ar gael ei ddewis i garfan tîm dan 13 oed y Sir ym Mangor ar Fehefin y 19eg. Bydd ei gem gyntaf yn erbyn Clwyd ac ar ddiwedd y gem honno fe ddewisir tîm i gynrychioli Gogledd Cymru. Deallir mai o drwch blewyn y methodd Neil Hughes o Lanrug a Michael Moran o Lanberis ag ymuno ag ef yn y garfan. Da iawn y tri ohonoch!

Bu tîm yr ail flwyddyn yn drech na bechgyn Ysgol Syr Huw Owen gan sgorio 74 am 3 wiced mewn 20 pelawd. 'Roedd hogia'r dre allan i gyd am 38 rhediad.

(parhad tud 19)

CARNIFAL LLANBERIS



★★★★★★★★★★★★★★★★★★★★

Nos Sul, Gorffennaf 9

Capel Coch am 8 pm

NOSON O GÂN

gyda Chôr Meibion Caernarfon
a Chantorion Llanberis

Nos Lun, Gorffennaf 12

7.30pm Ysgol Dolbadarn

GYRFA CHWIST

8.00pm Gwesty'r Prince of Wales
CYSTADLEUAETH PŴL

Nos Fawrth, Gorffennaf 11

5.45 pm Ddol Goeden

MABOLGAMPAU

8.00 pm Gwesty'r Prince of Wales
CWIS – ROWND DERFYNOL

Nos Fercher, Gorffennaf 12

8.00 pm Gwesty Dolbadarn

CYSTADLEUAETH DARTIAU

6 - 7.30 pm Ysgol Dolbadarn

DISGO I'R PLANT IAU

8 - 10.30 pm Ysgol Dolbadarn

DISGO I'R PLANT HYN

Nos Iau, Gorffennaf 13

6.00 pm Ddol Goeden

**CYSTADLEUAETH PÊL-DROED a
CHYSTADLEUAETH PÊL RWD**

Nos Wener, Gorffennaf 14

7.30 pm Clwb y Lleng Brydeinig
BINGO

★★★★★★★★★★★★★★★★★★★★

DYDD SADWRN, Gorffennaf 15

Y CARNIFAL

Yr Orymdaith yn gadael Swyddfa'r Post
am 12.15 pm

Beirniaid Gwadd:

Llion Williams a Siân Wheldon

(George a Sandra, C'mon Midffild)

Mynediad i'r Cae

50c Oedolion 30c Plant a Phensiynwyr

★★★★★★★★★★★★★★★★★★★★

**RAS YR
WYDDFA**



Bydd y Ras yn dechrau
am 2.30 wrth Glan y Bala.